

Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom P Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 28 Mawrth 2022 Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.30 0300 200 6565
SeneddDCC@senedd.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
(13.30)

**2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan
Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

(13.30 – 13.35)

(Tudalen 1)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-22 – Papur 1 – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

2.1 SL(6)176 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022

**3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r
Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.**

(13.35 – 13.45)

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

**3.1 SL(6)175 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Cynlluniau Blaendal) (Gwybodaeth
Ofynnol) (Cymru) 2022**

(Tudalennau 2 – 3)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:



LJC(6)-11-22 – Papur 2 – Adroddiad drafft

3.2 SL(6)177 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) 2022

(Tudalennau 4 – 7)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-22 – Papur 3 – Adroddiad drafft

3.3 SL(6)178 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Diogelu Eiddo mewn Anheddau y Cefnwyd Arnynt) (Cymru) 2022

(Tudalennau 8 – 9)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-22 – Papur 4 – Adroddiad drafft

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol

3.4 SL(6)182 – Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Newid Dyddiad Dod i Ben) (Cymru) 2022

(Tudalennau 10 – 14)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-22 – Papur 5 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

LJC(6)-11-22 – Papur 6 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Prif Weinidog, 21 Mawrth 2022

Offerynnau Cyfansawdd y Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

3.5 SL(6)180 – Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) 2022

(Tudalennau 15 – 16)

[Rheoliadau](#) (Saesneg yn unig)

[Memorandwm Esboniadol](#) (Saesneg yn unig)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-22 – Papur 7 – Adroddiad drafft

4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

(13.45 – 13.50)

4.1 SL(6)118 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 23) 2021

(Tudalennau 17 – 24)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-22 – Papur 8 – Llythyr gan y Prif Weinidog, 23 Mawrth 2022

LJC(6)-11-22 – Papur 9 – Llythyr at y Prif Weinidog, 2 Mawrth 2022

LJC(6)-11-22 – Papur 10 – Adroddiad

5 Fframweithiau cyffredin

(13.50 – 14.00)

5.1 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y fframweithiau cyffredin dros dro ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed, ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau)

(Tudalennau 25 – 42)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-22 – Papur 11 – Llythyr gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal

Cymdeithasol at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mawrth 2022.

5.2 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: Fframwaith Cyffredin dros dro Cemegau a Phlaladdwyr

(Tudalennau 43 – 44)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-22 – Papur 12 – Llythyr gan y Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, 23 Mawrth 2022 [Saesneg yn unig]

5.3 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: Fframwaith Cyffredin dros dro ar lechyd a Lles Anifeiliaid

(Tudalennau 45 – 49)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-22 – Papur 13 – Llythyr gan y Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, 23 Mawrth 2022 [Saesneg yn unig]

5.4 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: Fframwaith Cyffredin dros dro ar reoli pysgodfeydd a chefnogaeth

(Tudalennau 50 – 53)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-22 – Papur 14 – Llythyr gan y Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, 23 Mawrth 2022 [Saesneg yn unig]

6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(14.00 – 14.05)

6.1 Gohebiaeth at y Prif Weinidog: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol

(Tudalennau 54 – 55)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-22 – Papur 15 – Llythyr at y Prif Weinidog, 22 Mawrth 2022

7 Papurau i'w nodi

(14.05 – 14.15)

**7.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Memorandwm
Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau**

(Tudalennau 56 – 57)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-22 – Papur 16 – Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder
Cymdeithasol, 22 Mawrth 2022

**7.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Diweddariad ar
dreialu trefniadau pleidleisio hyblyg**

(Tudalennau 58 – 59)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-22 – Papur 17 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol,
23 Mawrth 2022

**7.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor
ar Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru
(Memorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Diogelwch Adeiladau**

(Tudalennau 60 – 62)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-22 – Papur 18 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 24
Mawrth 2022

**7.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Cynllun Masnachu Allyriadau'r
DU**

(Tudalen 63)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-22 – Papur 19 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 24
Mawrth 2022

**8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y
cyhoedd o weddill y cyfarfod**

(14.15)

9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Iaith Arwyddion Prydain – Trafod y nodyn cyngor cyfreithiol

(14.15 – 14.25)

(Tudalennau 64 – 67)

[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Iaith Arwyddion Prydain](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-22 – Papur 20 – Nodyn cyngor cyfreithiol

10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Etholiadau – Trafod y nodyn cyngor cyfreithiol

(Tudalennau 68 – 73)

[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 2\) ar y Bil Etholiadau](#)

[Adroddiad ar Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Etholiadau](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-22 – Papur 21 – Nodyn cyngor cyfreithiol

LJC(6)-11-22 – Papur 22 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Mawrth 2022

LJC(6)-11-22 – Papur 23 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 16 Chwefror 2022

11 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir) – Trafod yr adroddiad drafft

(14.35 – 14.45)

(I ddilyn)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-22 – Papur 24 – Adroddiad drafft

12 Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) – Trafod yr adroddiad drafft

(14.45 – 15.15)

(I ddilyn)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-22 – Papur 25 – Adroddiad drafft

13 Y rhaglen fframweithiau cyffredin – I'w hystyried

(15.15 – 15.25)

(Tudalennau 74 – 99)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-22 – Papur 26 – Nodyn briffio

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir 28 Mawrth 2022

SL(6)176 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022

Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn nodi 38 o ffurflenni hysbysu rhagnodedig i'w defnyddio gan landlordiaid neu ddeiliaid contract mewn amgylchiadau penodol lle mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Deddf 2016) yn ei gwneud yn ofynnol neu'n awdurdodi'r naill barti i ddarparu gwybodaeth benodol yn ysgrifenedig.

Er enghraifft, mae ffurflenni y gall landlordiaid eu defnyddio i hysbysu deiliaid contract am yr hyn a ganlyn:

- cyfeiriad er mwyn anfon dogfennau a fwriedir ar gyfer y landlord (Ffurflen RHW2);
- y bydd rhent newydd yn dod i rym ar ddyddiad penodol (Ffurflen RHW12);
- bod yn rhaid i ddeiliad y contract ildio meddiant o annedd ar ddyddiad penodedig (Ffurflen RHW16);
- bod y landlord yn bwriadu gwneud hawliad meddiant i'r llys (Ffurflen RHW23);
- estyn y cyfnod prawf i gyfnod o 18 mis (Ffurflen RHW37);

Bydd landlordiaid a deiliaid contract yn gallu lawrlwytho'r rhain o wefan Llywodraeth Cymru ac, unwaith y byddant wedi'u cwblhau, gellir eu cyflwyno'n electronig yn unol â Deddf 2016. Mae rhai ffurflenni hefyd yn cynnwys nodiadau cyfarwyddyd er mwyn gwneud eu diben yn haws ei ddeall.

Rhiant-Ddeddf: Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Fe'u gwnaed ar: 08 Mawrth 2022

Fe'u gosodwyd ar: 10 Mawrth 2022

Yn dod i rym ar:



Eitem 3.1

SL(6)175 - Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Cynlluniau Blaendal) (Gwybodaeth Ofynnol) (Cymru) 2022

Cefndir a Diben

Yn aml, mae landlordiaid yn gofyn i denantiaid dalu blaendal fel sicrwydd yn achos, er enghraifft, unrhyw niwed posibl i'r eiddo a achosir gan y tenant. Fodd bynnag, nid yw'r blaendal yn eiddo i'r landlord ac felly rhaid diogelu unrhyw flaendal a delir yn briodol. Rhaid i'r landlord ddiogelu pob blaendal drwy gynllun blaendal awdurdodedig.

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid ddarparu gwybodaeth benodol am y cynllun blaendaliadau i denantiaid yn ysgrifenedig, gan gynnwys:

- manylion gweinyddwr y cynllun megis enw, cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost;
- ble mae eu blaendal yn cael ei gadw;
- sut y caiff ei ad-dalu ar ddiwedd y contract;
- pa ddiwydiadau y gellir eu cymryd ohono yn rhesymol gan landlord i gwmpasu, er enghraifft, rent heb ei dalu neu niwed; ac
- y weithdrefn ar gyfer datrys unrhyw anghydfodau a all godi rhwng y ddau barti mewn perthynas â'r blaendal.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae rheoliad 3(1)(b) yn cyfeirio at "unrhyw wybodaeth a gyflenwir gan weinyddwr y cynllun i'r landlord sy'n egluro'r modd y gweithredir adrannau 45 i 47(3) o'r Ddeddf ac Atodlen 5 iddi". Fodd bynnag, nid yw'n glir a fydd ar weinyddwyr y cynllun ddyletswydd i gyflenwi gwybodaeth o'r fath i landlordiaid yn y lle cyntaf.

Byddem yn ddiolchgar am eglurder ynghylch a fydd gan weinyddwyr y cynllun ddyletswydd o'r fath.



2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae rheoliadau 3(1)(c) a 3(1)(e) yn cyfeirio at swm mewn cysylltiad â blaendal sy'n cael "ei dalu neu ei ad-dalu" i ddeiliaid y contract. Fodd bynnag, yng nghyd-destun blaendaliadau, nid yw'n glir beth yw'r gwahaniaeth rhwng "talu" symiau i ddeiliaid contract ac "ad-dalu" symiau i ddeiliaid contract.

A yw'n dibynnu ar bwy a dalodd y blaendal yn y lle cyntaf, h.y.

- os talwyd y blaendal gan ddeiliad y contract, caiff ei ad-dalu i ddeiliad y contract, ond
- os talwyd y blaendal gan rywun ar ran deiliad y contract, caiff y blaendal ei dalu (nid ei ad-dalu) i ddeiliad y contract?

Mae Deddf 2016 yn cyfeirio'n benodol at flaendal a delir gan ddeiliad y contract a blaendal a delir gan rywun ar ran deiliad y contract, ond nid yw'r gwahaniaeth hwnnw'n glir yn y Rheoliadau.

Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

23 Mawrth 2022



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 3

Legislation, Justice and Constitution Committee

Eitem 3.2

SL(6)177 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) 2022

Cefndir a Diben

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn ymwneud â dau fath o gontract meddiannaeth o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Deddf 2016):

- (1) contractau safonol rhagarweiniol, a
- (2) chontractau safonol ymddygiad gwaharddedig.

Mae **contract safonol rhagarweiniol** yn fath penodol o gontract y gellir ei ddefnyddio gan landlordiaid cymunedol, neu elusennau sy'n darparu swyddogaeth landlord, fel opsiwn amgen i gontract diogel wrth osod annedd i ddeiliad contract. Mae'r math hwn o gontract yn rhedeg am gyfnod cychwynnol o 12 mis ac yna'n trosi'n gontract diogel yn awtomatig, ond gall y landlord ofyn am orchymyn llys i ymestyn y cyfnod rhagarweiniol i gyfanswm o 18 mis. Mae contractau safonol rhagarweiniol yn caniatáu i landlordiaid cymunedol ac elusennau ganfod yn ystod y cyfnod rhagarweiniol a all deiliad contract gynnal contract diogel. Mewn achosion pan fydd deiliad y contract wedi dangos na fydd yn gallu cynnal contract diogel, er enghraifft oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol, gall y landlord geisio terfynu drwy roi hysbysiad o dan adran 173 o Ddeddf 2016. Mae hyn yn golygu y gellir terfynu contract safonol rhagarweiniol yn haws nag sy'n bosibl o dan gontract diogel.

Mae **contract safonol ymddygiad gwaharddedig** yn fath penodol o gontract y gellir ei ddefnyddio fel dewis amgen i derfynu contract diogel pan fydd deiliad y contract wedi torri telerau ei gontract diogel ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol neu ymddygiad gwaharddedig arall. Gall y landlord wneud cais i'r llys am i gontract diogel gael ei ddisodli gan gontract safonol ymddygiad gwaharddedig, sydd, os caiff ei wneud, yn darparu ar gyfer cyfnod prawf o 12 mis lle gall y landlord geisio terfynu'r contract yn haws drwy roi hysbysiad o dan adran 173 o Ddeddf 2016. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod prawf, mae'n ofynnol i'r landlord ddarparu cymorth cymdeithasol i ddeiliad y contract gyda'r nod o atal unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol neu ymddygiad gwaharddedig pellach. Gellir ymestyn y cyfnod prawf am chwe mis pellach os bydd y landlord yn gofyn am hyn a bod y llys yn cytuno.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn gan landlordiaid mewn cysylltiad ag adolygiadau y gofynnir amdanynt gan ddeiliaid contract mewn perthynas â'r canlynol:

- penderfyniadau landlord i derfynu contractau safonol rhagarweiniol neu gontractau safonol ymddygiad gwaharddedig;
- penderfyniadau landlord i ymestyn cyfnodau rhagarweiniol (contractau safonol rhagarweiniol); a



- phenderfyniadau landlord i ymestyn cyfnodau prawf (contractau safonol ymddygiad gwaharddedig).

Mae'r weithdrefn a nodir yn y Rheoliadau yn darparu, er enghraifft:

- rhaid i unrhyw adolygiad gael ei gynnal gan rywun heblaw'r person a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol, ac os yw'r adolygiad i'w gynnal gan rywun yn yr un sefydliad, rhaid i'r person hwnnw fod yn uwch na'r person a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol;
- rhaid cynnal gwrandawriad llafar os bydd deiliad y contract yn gofyn amdano i ganiatáu i ddeiliad y contract wneud sylwadau yn bersonol, neu gael ei gynrychioli gan berson arall;
- gellir cynnal gwrandawriad llafar rhithwir gyda chydsyniad ysgrifenedig deiliad y contract;
- p'un a oes gwrandawriad llafar ai peidio, gall deiliad y contract gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r landlord, ac mae'n rhaid i'r landlord eu hystyried;
- rhaid i'r landlord roi hysbysiad ysgrifenedig i ddeiliad y contract o amser, dyddiad a lleoliad rhesymol gyfleus ar gyfer y gwrandawriad.

Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae Deddf 2016 yn dweud bod yn rhaid i'r landlord gynnal adolygiadau o penderfyniadau penodol gan y landlord. Er enghraifft, pan fydd deiliad contract yn gofyn am adolygiad o benderfyniad landlord o dan adran 203 o Ddeddf 2016, rhaid i'r landlord gynnal yr adolygiad.

Mae rheoliad 3(1) o'r Rheoliadau yn dweud bod yn rhaid i adolygiad "gael ei gynnal gan berson nad oedd yn ymwneud â'r penderfyniad sy'n cael ei adolygu".

A ddylai'r Rheoliadau, boed ar eu hwyneb neu mewn troednodyn, atgoffa darllenwyr bod rhaid darllen rheoliad 3(1) yn ddarostyngedig i Ddeddf 2016 gan gynnwys, er enghraifft, adran 203, sy'n dweud bod yn rhaid mai'r landlord yw'r person sy'n cynnal yr adolygiad o



hyd?

2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae rheoliad 3(1) yn dweud bod yn rhaid i adolygiad gael ei gynnal gan berson nad oedd yn "ymwneud" â'r penderfyniad sy'n cael ei adolygu.

Byddem yn croesawu eglurhad ynghylch a yw'n bosibl na fyddai unrhyw berson ar gael nad oedd yn ymwneud â'r penderfyniad sy'n cael ei adolygu. Os felly, sut ddylai landlord gydymffurfio â rheoliad 3(1)?

Mewn sawl ffordd, mae hwn hefyd yn gwestiwn ynghylch ystyr "ymwneud" â'r penderfyniad sy'n cael ei adolygu.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Pan fydd deiliad y contract neu gynrychiolydd deiliad y contract yn methu â bod yn bresennol mewn gwrandawriad llafar, mae rheoliad 9 yn rhoi dau opsiwn i'r person sy'n cynnal yr adolygiad:

- (a) bwrw ymlaen â'r gwrandawriad, neu
- (b) wneud cyfarwyddiadau ynghylch yr adolygiad fel y mae'r person hwnnw'n ei ystyried yn briodol, gan ystyried yr amgylchiadau perthnasol, gan gynnwys unrhyw esboniad am yr absenoldeb.

Mae opsiwn (b) yn ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n cynnal yr adolygiad ystyried yr amgylchiadau, gan gynnwys unrhyw esboniad a roddir gan ddeiliad y contract neu gynrychiolydd deiliad y contract am yr absenoldeb.

Fodd bynnag, mae opsiwn (a) yn caniatáu i'r person sy'n cynnal yr adolygiad fwrw ymlaen â'r gwrandawriad yn absenoldeb deiliad y contract neu gynrychiolydd deiliad y contract, waeth beth fo'r amgylchiadau. A ddylai opsiwn (a) fod yn ddarostyngedig i'r gofyniad i ystyried yr amgylchiadau ac unrhyw esboniad a roddir am yr absenoldeb?

Yn yr un modd, pan fydd deiliad contract yn gofyn am ohirio gwrandawriad llafar, mae rheoliad 10 yn caniatáu i'r landlord (nid y person sy'n cynnal yr adolygiad) ganiatáu neu wrthod y cais "yn ôl yr hyn y gwêl y landlord ei fod yn addas". A ddylai fod yn ofynnol i'r landlord ystyried unrhyw amgylchiadau perthnasol wrth benderfynu a ddylid caniatáu neu wrthod y cais i ohirio?



Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

23 Mawrth 2022



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 7

Legislation, Justice and Constitution Committee

Eitem 3.3

SL(6)178 - Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Diogelu Eiddo mewn Anheddau y Cefnwyd Arnynt) (Cymru) 2022

Cefndir a Diben

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn gwneud darpariaeth o ran sut mae'n rhaid ymdrin ag eiddo (ac eithrio eiddo'r landlord) sy'n cael ei adael mewn annedd y cefnwyd arni. Yn gyffredinol, maent yn rhoi dyletswydd ar landlord i ddiogelu eiddo a gaiff ei adael mewn annedd y cefnwyd arni am bedair wythnos o'r diwrnod y mae'r contract wedi'i derfynu. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth o ran gwaredu eiddo o'r fath gan landlord.

Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r Rheoliadau yn nodi'r hyn sy'n gorfod digwydd i eiddo mewn annedd y mae deiliad contract wedi cefnu arni. Ym mha ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n ystyried y dylai'r Rheoliadau fod yn gymwys lle mai anifail/anifail anwes yw'r eiddo? A ddylai'r Rheoliadau wneud darpariaeth benodol ar gyfer amgylchiadau o'r fath, yn hytrach na thrin anifeiliaid/anifeiliaid anwes yn yr un modd ag y trinnid mathau eraill o eiddo?

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Pan fo landlord yn arfer yr hawl i waredu eiddo yn unol â rheoliad 3(3) neu reoliad 3(4) drwy werthu'r eiddo, a all Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd teitl yr eiddo yn trosglwyddo o



berchennog gwreiddiol yr eiddo (boed yn ddeiliad y contract neu'n drydydd parti) i brynwr yr eiddo?

At hynny, pa fesurau diogelu sydd ar waith ar gyfer trydydd parti sy'n colli eiddo oherwydd bod y landlord wedi gwaredu'r eiddo yn unol â'r Rheoliadau, a pha rwymedïau sydd ar gael i'r trydydd parti hwnnw?

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

O dan reoliad 5, caiff landlord ddefnyddio unrhyw enillion o waredu eiddo (h.y. gwaredu o dan reoliad 3(3) neu reoliad 3(4)) ar gyfer treuliau yr aeth y landlord iddynt wrth gydymffurfio â'r Rheoliadau. At hynny, os oes unrhyw swm yn weddill, caiff y landlord ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus o dan y contract meddiannaeth.

A wnaeth Llywodraeth Cymru ystyried caniatáu (neu hyd yn oed ei gwneud yn ofynnol) i landlord ddefnyddio unrhyw swm sy'n weddill ar gyfer symiau eraill a all fod yn ddyledus gan ddeiliad y contract ar wahân i ôl-ddyledion rhent?

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

23 Mawrth 2022



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 9

Legislation, Justice and Constitution Committee

Eitem 3.4

SL(6)182 – The Coronavirus Act 2020 (Alteration of Expiry Date) (Wales) Regulations 2022

Background and Purpose

The Coronavirus Act 2020 (Alteration of Expiry Date) (Wales) Regulations 2022 (“these Regulations”) amend the Coronavirus Act 2020 (“the Act”).

The purpose of these [Regulations](#) is to extend the expiry date of certain provisions of the Act to the end of the day on 24 September 2022. They would otherwise expire at the end of the day on 24 March 2022.

Section 89(1) of the Act provides that the Act expires at the end of 2 years beginning with the day on which it is passed, subject to subsection (2) of that section and section 90 of the Act. Section 90(2) of the Act provides that a relevant national authority may by regulations amend the expiry date of provisions in the Act. The Welsh Ministers are a relevant national authority for Wales in relation to provisions of the Act that apply in relation to Wales and which would fall with the legislative competence of Senedd Cymru.

The relevant provisions which expire at the end of the day on 24 September 2022, in so far as they apply in relation to Wales are:

- Section 38(1) and Schedule 17 – Temporary continuity: education, training and childcare (Wales)

This provision gives the Welsh Ministers a power to issue temporary continuity directions to educational institutions, registered childcare providers and local authorities requiring them to take reasonable steps – or specific steps that the Welsh Minister consider reasonable – in connection with the provision of education, training, childcare (or services relating to these), or ancillary services and facilities, for a specified period.

It also gives the Welsh Ministers a power to issue notices to disapply or modify, for a period of one month, certain specified statutory requirements in education and childcare, where the Welsh Ministers consider the issuing of the notice to be an appropriate and proportionate action in all the circumstances relating to the incidence or transmission of coronavirus.

Whilst there is no requirement to extend the childcare or for Higher or Further Education provisions, there may be need to consider powers for schools to dis-apply or modify certain requirements, if there is further significant disruption during this academic year as a consequence of Covid.

- Section 82 - Business tenancies in England and Wales: protection from forfeiture etc.

Section 82 provides that a right of re-entry or forfeiture, under a relevant business tenancy, for non-payment of rent may not be enforced, by action or otherwise, during the “relevant



period". The moratorium was introduced in order to limit the significant impact on businesses from the series of interventions and restrictions that have been imposed on the Welsh economy throughout the pandemic. These provisions were included as an intervention to address the issues – particularly cash-flow.

The end of the relevant period for this provision was initially 30 June 2020. Subsequently, Welsh Ministers agreed to extend the moratorium on a number of occasions. Most recently, the "relevant period" was extended in relation to Wales until 25 March 2022 by The Business Tenancies (Extension of Protection from Forfeiture etc.) (Wales) (Coronavirus) (No. 3) Regulations 2021. This has provided protection for relevant business tenants whilst also providing time for the development of the Commercial Rent (Coronavirus) Bill ("the Bill").

The proposal to extend Section 82 is to provide the Welsh Ministers continued opportunity to extend the relevant period if considered to be required in the context of the Bill.

Procedure

Made Affirmative.

The Regulations were made by the Welsh Ministers before they were laid before the Senedd. The Senedd must approve the Regulations within 40 days (excluding any days when the Senedd is: (i) dissolved, or (ii) in recess for more than four days) of the date they were made for them to continue to have effect.

The procedure for regulations made by the Welsh Ministers under the Act is provided by sections 94(2) and (6) of the Coronavirus Act 2020.

Technical Scrutiny

No points are identified for reporting under Standing Order 21.2 in respect of this instrument.

Merits Scrutiny

The following point is identified for reporting under Standing Order 21.3 in respect of this instrument.

1. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd

We note the Welsh Government's justification for any potential interference with human rights. In particular, we note the following paragraph in the Explanatory Memorandum:

Whilst the Act engages individual rights under the Human Rights Act 1998 and the European Convention on Human Rights, the Government considers that they are justified for the purpose of preventing the spread of infectious diseases and/or the interference is permitted on the basis that it is in pursuit of a legitimate aim, namely of protecting public health, and are proportionate.



Article 1 of the First Protocol (protection of property) and Article 2 of the First Protocol (right to education) are key articles of the ECHR engaged by the provisions of the Act which are being extended.

Each of these is a qualified right, which permits the Welsh Ministers to interfere with the exercise of the rights if necessary in a democratic society in the interests of public safety or for the protection of health. All such restrictions and requirements must be justified on the basis that they are in pursuit of a legitimate aim, namely of protecting public health, and are proportionate to that aim. Any interference with these rights also needs to be balanced with the state's positive obligations under Article 2 (right to life). The adjustment of the provisions of Act by these Regulations is a proportionate response to the spread of coronavirus. It balances the need to maintain an appropriate response to the threat posed by coronavirus against the rights of individuals and businesses, in a manner which remains proportionate to the need to control the rate of transmission of the coronavirus, taking into account the scientific evidence.

Welsh Government response

A Welsh Government response is not required.

Legal Advisers

Legislation, Justice and Constitution Committee

24 March 2022



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament **Tudalen y pecyn 12**

Legislation, Justice and Constitution Committee



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEIT Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Newid Dyddiad Dod i Ben) (Cymru) 2022

DYDDIAD 22 Mawrth 2022

GAN Y Prif Weinidog, Mark Drakeford AS

Rhoddodd Deddf y Coronafeirws 2020 (y Ddeddf) bwerau brys i Weinidogion Cymru i ymateb i'r pandemig. Cafodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol ar 25 Mawrth 2020. Bydd y rhan fwyaf o'r darpariaethau dros dro yn y Ddeddf yn dod i ben ar ddiwedd y dydd ar 24 Mawrth.

Rwyf heddiw wedi gosod Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Newid Dyddiad Dod i Ben) (Cymru) 2022 i estyn dwy ddarpariaeth dros dro am gyfnod o chwe mis.

Dyma'r darpariaethau:

Adran 82 – Tenantiaethau busnes yng Nghymru a Lloegr: gwarchodaeth rhag fforffediad etc

Mae adran 82 yn darparu na chaniateir gorfodi hawl ailfynediad neu fforffediad, o dan denantiaeth fusnes berthnasol, am beidio â thalu rhent, drwy weithredu neu fel arall, yn ystod y "cyfnod perthnasol".

Cyflwynwyd y moratoriwm i gyfyngu ar yr effaith sylweddol ar fusnesau yn sgil y gyfres o ymyriadau a chyfyngiadau sydd wedi'u gosod ar economi Cymru drwy gydol y pandemig. Cafodd y darpariaethau hyn eu cynnwys fel ymyriad i fynd i'r afael â'r materion dan sylw – yn enwedig llif arian.

Yn wreiddiol, diwedd y cyfnod perthnasol ar gyfer y ddarpariaeth hon oedd 30 Mehefin 2020. Wedyn, cytunodd Gweinidogion Cymru i estyn y moratoriwm ar sawl achlysur. Yn fwyaf diweddar, cafodd y "cyfnod perthnasol" ei estyn mewn perthynas

â Chymru tan 25 Mawrth 2022 gan Reoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 3) 2021.

Mae hyn wedi rhoi gwarchodaeth i denantiaid busnes perthnasol tra hefyd yn rhoi amser i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â Llywodraeth y DU wrth ddatblygu'r Bil Rhent Masnachol (Coronafeirws). Mae'r Bil hwn yn mynd rhagddo drwy Senedd y DU ar hyn o bryd a disgwylir iddo ddiogelu'n barhaus tenantiaethau busnes sy'n dod o fewn cwrpas y Bil, tra hefyd yn darparu ar gyfer cyfundrefn gyflafareddu bwrpasol mewn rhai amgylchiadau.

Bwriad y cynnig i estyn Adran 82 yw parhau i roi'r cyfle i Weinidogion Cymru estyn y cyfnod perthnasol os ystyrir ei fod yn ofynnol yng nghyd-destun y Bil.

Adran 38 (Atodlen 17) – Parhad dros dro: addysg a hyfforddiant a gofal plant

Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau parhad dros dro i sefydliadau addysgol, darparwyr gofal plant cofrestredig ac awdurdodau lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd camau rhesymol – neu gamau penodol y mae Gweinidogion Cymru o'r farn eu bod yn rhesymol – mewn cysylltiad â darparu addysg, hyfforddiant, gofal plant (neu wasanaethau sy'n ymwneud â'r rhain), neu wasanaethau a chyfleusterau ategol, am gyfnod penodedig.

Cyn rhoi'r cyfarwyddyd, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw gyngor gan Brif Swyddog Meddygol Cymru (neu ei ddirprwyon) sy'n ymwneud â mynychder achosion o'r coronafeirws, neu ei drosglwyddiad, a rhaid iddynt benderfynu bod rhoi'r cyfarwyddyd yn gam angenrheidiol a chymesur ar gyfer neu mewn cysylltiad â pharhau i ddarparu, fel y bo'n berthnasol, addysg, hyfforddiant neu ofal plant ac yn y blaen. Mae hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru roi hysbysiadau i ddatgymhwyso neu addasu, am gyfnod o fis, ofynion statudol penodol mewn addysg a gofal plant, pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn fod rhoi'r hysbysiad yn gam priodol a chymesur o dan yr holl amgylchiadau sy'n ymwneud â mynychder achosion o'r coronafeirws neu drosglwyddiad y coronafeirws.

Er nad oes gofyniad i estyn y darpariaethau gofal plant neu addysg uwch neu addysg bellach, efallai y bydd angen ystyried pwerau i ysgolion ddatgymhwyso neu addasu gofynion penodol, os bydd tarfu sylweddol pellach yn ystod y flwyddyn academaidd hon o ganlyniad i'r pandemig.

Mesur wrth gefn yw hwn i raddau helaeth – nid ydym yn cynllunio nac yn disgwyl defnyddio'r ddarpariaeth hon yn y cyfnod ymestyn o chwe mis oni bai bod angen.

Mae dadl ar y Rheoliadau wedi'i threfnu ar gyfer 29 Mawrth.

SL(6)180 - Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) 2022

Cefndir a Diben

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrrwyr) (Ad-dalu) 2009 ("Rheoliadau 2009"). Mae Rheoliadau 2009 yn darparu'r sylfaen ar gyfer ad-dalu benthyciadau myfyrrwyr a wnaed gan Weinidogion Cymru ac maent yn cynnwys darpariaeth i godi llog ar fenthyciadau myfyrrwyr.

Mae benthycwyr yn dechrau ad-dalu eu benthyciad myfyrrwyr unwaith y bydd eu henillion yn uwch na throthwy penodol. Mae benthycwyr Cynllun 2 (y rhai sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru neu fyfyriwr o'r UE sy'n astudio yng Nghymru a ddechreuodd gwrs israddedig ar neu ar ôl 1 Medi 2012) yn ad-dalu 9 y cant o'u henillion sy'n uwch na'r trothwy hwnnw.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2009 i:

- rewi trothwy ad-dalu benthyciadau myfyrrwyr Cynllun 2 am flwyddyn (ar ei lefel bresennol o £27,295) a'r trothwyon cyfradd llog ar gyfer benthycwyr o Gymru; a
- chynnal y bandiau trothwy ad-dalu a bandiau trothwy cyfradd llog is ac uwch ar y lefelau presennol ar gyfer benthycwyr sy'n preswyllo dramor.

Y weithdrefn

Negyddol Cyfansawdd

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd a Senedd y Deyrnas Unedig.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd. Gall Senedd y Deyrnas Unedig hefyd ddirymu'r Rheoliadau, yn unol â'r rheolau ar gyfer dirymu sy'n gymwys i Senedd y Deyrnas Unedig.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud fel offeryn cyfansawdd, sy'n golygu eu bod: (a) wedi cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a (b) wedi cael eu gosod gerbron y Senedd a Senedd y DU.



O ganlyniad, gwnaed y Rheoliadau hyn yn Saesneg yn unig.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu:

"Given the composite nature of the 2009 Regulations and that no routine Parliamentary processes exist by which to lay bilingual regulations before Parliament, these Regulations will be made in English only".

Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

21 Mawrth 2022



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament Tudalen y pecyn 16

Legislation, Justice and Constitution Committee



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Y Senedd

SeneddDCC@senedd.cymru

23 Mawrth 2022

Annwyl Cadeirydd,

Ysgrifennaf y llythyr hwn mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 2 Mawrth ynghylch ystyriaeth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'r ymateb a roddwyd gennym i'r Pwyllgor i'ch llythyr dyddiedig 8 Chwefror am y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 23) 2021.

Rwy'n falch o gadarnhau bod yr Aseidiadau Effaith Cryno canlynol bellach wedi'u cyhoeddi:

- Adolygiad 3 Mehefin 2021 (gan gynnwys caniatáu i chwe unigolyn o chwe aelwyd gymysgu dan do; hyd at 30 o bobl yn yr awyr agored; ymestyn 'aelwydydd estynedig' ac agor canolfannau sglefrio)
- Adolygiad 15 Gorffennaf 2021 (gan gynnwys y rheol i chwe pherson gyfarfod dan do mewn anheddau preifat, digwyddiadau dan do; canolfannau sglefrio; clybiau nos a chanolfannau adloniant i oedolion; ymweliadau preswyl ac ymgynnull yn yr awyr agored)
- Awst 2021 – mesurau llinell sylfaen lefel rhybudd sero

Gellir cael gafeael ar y dogfennau yma: [Aseidiadau o effaith: coronafeirws | LLYW.CYMRU](#)

Cwblhawyd yr aseidiadau yn ystod y gwaith o gynnal yr adolygiadau perthnasol, ond yn anffodus ni chyhoeddwyd y rhain o ganlyniad i gamgymeriad gweinyddol a achoswyd gan y pwysau gwaith sylweddol a ddaeth yn sgil yr ymateb i bandemig y Coronafeirws. Ymddiheuraf i'r pwyllgor am hyn a gallaf gadarnhau ein bod wedi gwella'r broses er mwyn sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto.

Rwy'n croesawu cydnabyddiaeth y pwyllgor ynghylch ein dull diwygiedig i adolygu aseidiadau effaith blaenorol ac adolygu a ydynt yn parhau yn ddilys. Rwy'n nodi eich sylw

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ynglŷn â chrynhoi'r prif faterion cydraddoldeb sy'n codi a byddwn yn mynd ati i geisio gwneud hynny ym Memoranda Esboniadol y dyfodol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

MARK DRAKEFORD

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

2 Mawrth 2022

Annwyl Mark

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 23) 2021

Diolch i chi am eich ymateb, dyddiedig 8 Chwefror 2022, i'n llythyr dyddiedig 21 Ionawr mewn perthynas â'n hadroddiad ar y Rheoliadau uchod. Trafodwyd eich ymateb yn ein cyfarfod ar 14 Chwefror.

Rydych yn nodi yn eich ymateb y gall natur gyflym y pandemig arwain at oedi wrth gyhoeddi Asesiadau Effaith Cryno, a deallwn hynny'n llwyr.

Nodwn fod eich swyddogion wrthi'n adolygu'r broses Asesiadau Effaith Cryno ar hyn o bryd o ran newidiadau a wnaed i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (y prif Reoliadau), a bod yr adolygiad eisoes wedi nodi tri Asesiad sy'n agosáu at gael eu cyhoeddi. Nodwn hefyd fod yr Asesiadau hynny a ddisgywlir, yn ymwneud ag adolygiadau o'r cyfyngiadau coronafeirws a gynhaliwyd ar 3 Mehefin 2021, 15 Gorffennaf 2021, ac Awst 2021 – sydd, erbyn iddynt gael eu cyhoeddi, yn ymddangos i ni fel oedi sylweddol ac afresymol o ran eu cyhoeddi. Felly, byddem yn croesawu esboniad ynghylch sut yr ydych yn ceisio osgoi oedi o'r fath wrth gyhoeddi Asesiadau yn y dyfodol mewn perthynas ag adolygiadau o gyfyngiadau coronafeirws.

Yn ein cyfarfod ar 28 Chwefror ystyriwyd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2022 a'u Memorandwm Esboniadol cysylltiedig. Canfuwyd fod y darn canlynol yn y Memorandwm Esboniadol yn darparu asesiad derbyniol o effaith y Rheoliadau, ac felly ni chodwyd pwynt adrodd ar rinweddau mewn perthynas â chyhoeddi adroddiad asesu effaith cysylltiedig:

Gan fod y Rheoliadau diwygiedig hyn yn llacio mesurau sydd eisoes ar waith, cafodd yr asesiadau effaith cryno blaenorol, sy'n cynnwys asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, a gyhoeddwyd ar 16 Medi 2021, 2 Tachwedd 2021 a 18 Ionawr 2022, eu hadolygu ac maent yn parhau'n ddilys. Bydd dileu unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol yn debygol o leihau'r effeithiau negyddol a nodwyd.

Rydym yn croesawu'r dull newydd hwn, ac felly byddem yn disgwyl i Femoranda Esboniadol yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â rheoliadau sy'n diwygio'r prif Reoliadau gynnwys esboniad o ba asesiadau effaith blaenorol, os o gwbl, sy'n parhau'n ddilys. Byddem hefyd yn croesawu crynodeb byr o'r prif faterion cydraddoldeb sy'n codi; nodwyd gennym fod y dull a ddilynwyd yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Addysg (Diwrnod Ysgol a Blwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio a Dirymu) 2022, ac roedd hyn yn arbennig o ddefnyddiol i ni.

Os na fydd asesiad o'r fath yn gysylltiedig ag unrhyw ddiwygiadau i'r prif Reoliadau yn y dyfodol, byddwn yn parhau i godi gofyniad rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, sef i Weinidogion Cymru wneud trefniadau i gyhoeddi adroddiadau ar asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, fel pwynt adrodd yn ymwneud â theilyngdod.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



SL(6)118 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 23) 2021

Cefndir a Diben

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984") yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i nifer neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Gwneir [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Cyfyngiadau Coronafeirws\) \(Rhif 5\) \(Cymru\) \(Diwygio\) \(Rhif 23\) 2021](#) ("y Rheoliadau") drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c) a 45F(2) o Ddeddf 1984 mewn ymateb i'r bygythiad i iechyd y cyhoedd a achosir gan nifer a lledaeniad COVID-19.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau"), gan gael effaith o 20 Rhagfyr 2021, er mwyn:

- rhestru'n benodol yn caniatáu neu'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogeion weithio gartref fel mesur rhesymol y gall fod yn ofynnol i gyflogeion ei gymryd yn unol â'r ddyletswydd o dan Gam 3 o reoliad 16;
- gosod dyletswydd newydd, o dan reoliad 18B, ar unigolion i weithio, neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol, o'u cartref lle mae'n rhesymol ymarferol iddynt wneud hynny;
- creu trosedd o dan reoliad 42A pan fo person, heb esgus rhesymol, yn mynd yn groes i'r gofyniad yn rheoliad 18B.

Gweithdrefn

Rheoliadau a wnaed yn gadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pedwar pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y Memorandwm Esboniadol:

"Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.

Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwysu unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"O ystyried y bygythiad parhaus sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus prydlon, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Serch hynny, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid amrywiol gan gynnwys Is-adran Cydraddoldebau Llywodraeth Cymru."



3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau a gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio pa drefniadau y mae wedi eu gwneud, mewn perthynas â'r Rheoliadau, i gyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn unol â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Er y nodir bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi bod asesiadau cryno o'r effaith yn cael eu paratoi a fydd yn cynnwys effeithiau sy'n ymwneud â gweithio gartref, nid yw'n eglur a fydd y rhain yn cynnwys asesiad o effaith ar gydraddoldeb ac, beth bynnag, nid ydynt ar gael i'r dinesydd ar hyn o bryd at ddibenion asesu effaith y darpariaethau newydd sy'n cael eu cyflwyno gan y Rheoliadau ar gydraddoldeb.

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Y tu hwnt i'r datganiad a ganlyn, nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nac yn cynnwys unrhyw gyfeiriadau penodol at y dystiolaeth y mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu arni wrth wneud darpariaeth o dan y Rheoliadau:

"Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a berir gan y coronafeirws, yn enwedig y cynnydd cyflym mewn achosion Omicron."

Nodwn, fodd bynnag, y canlynol yn natganiad ysgrifenedig y Prif Weinidog, Mark Drakeford AS ar 17 Rhagfyr 2021:

"Yn yr adolygiad diwethaf o'r rheoliadau coronafeirws ar 9 Rhagfyr, dywedais y byddwn yn newid o drefn adolygu bob tair wythnos i drefn wythnosol i fod yn siŵr fod gennym y mesurau cywir yn eu lle i gadw Cymru'n ddiogel wrth i'r amrywiolyn omicron ddod ar ein gwarthaf."

Mae'r amrywiolyn wedi cyrraedd Cymru. Mae'n fwy heintus ac yn lledaenu'n gyflym.

.....

Mae'r nifer sydd wedi'u heintio gan yr amrywiolyn omicron yn cynyddu bob dydd yng Nghymru – ac yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Erbyn diwedd y mis, fwy na thebyg, omicron fydd y ffurf fwyaf cyffredin ar y feirws. Rydym yn dal i ddysgu amdano. Ond mae popeth rydym yn ei wybod yn awgrymu bod sefyllfa ddifrifol iawn o'n blaenau."

O gofio'r ddyletswydd statudol ychwanegol y mae'r Rheoliadau yn ei gosod o dan reoliad newydd 18B, yn enwedig creu trosedd yn rheoliad 42A newydd, byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru nodi'r dystiolaeth berthnasol sy'n cefnogi'r tynhau sylweddol o ran y cyfyngiad ar weithio gartref ar hyn o bryd.



Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb oddi wrth Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau 3 a 4 uchod yn unig.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 10 Ionawr 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament Tudalen y pecyn 24

Legislation, Justice and Constitution Committee

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

21 Mawrth 2022


Annwyl Eluned

Fframweithiau cyffredin dros dro

Diolch am eich llythyrau dyddiedig 17 Ionawr 2022 ynghylch y fframweithiau cyffredin dros dro ar gyfer: Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd; Diogelwch ac Ansawdd Gwaed; ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau).

Nodir ein barn ar y fframweithiau cyffredin dros dro hyn yn yr atodiad. Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb erbyn **dydd Llun 9 Mai**.

Yn gywir



Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Anfonwyd copi at: Tracey Cooper, Prif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru
Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Senedd Cymru
Y Farwnes Andrews, Cadeirydd Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi
Colm Gildernew MLA, Pwyllgor Iechyd Cynulliad Gogledd Iwerddon
Gillian Martin MSP, Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Senedd yr Alban
William Wragg AS, Cadeirydd, Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad: Y fframweithiau cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed, ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau)

Risgiau a manteision y dull fframwaith cyffredin

- 1.** Diben fframweithiau cyffredin yw sefydlu dulliau gweithredu cyffredin mewn rhai meysydd a oedd yn arfer bod yn destun cyfraith yr UE, ond sydd o fewn meysydd cymhwysedd y llywodraethau neu'r deddfwrfeydd datganoledig.¹ Maent yn arf allweddol ar gyfer gwaith rhynglywodraethol a thrafod dulliau o ymdrin â'r gyfraith a pholisi ers i'r DU ymadael â'r UE.
- 2.** Mae'r fframweithiau cyffredin Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed, ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau), yn nodi sut y bydd y Llywodraethau'n gweithio gyda'i gilydd ac yn gwneud penderfyniadau o ran cysoni trefniadau rheoleiddiol a dilyn trefniadau gwahanol yn y cyd-destun ar ôl Brexit.
- 3.** Gallai'r strwythurau a ddarperir gan y fframweithiau cyffredin hyn wella cydweithio a hybu dull cyffredin o fynd i'r afael â heriau cyffredin. Gallent gynnig cyfleoedd i Lywodraeth Cymru lywio'r penderfyniadau a wneir gan lywodraethau eraill a dylanwadu arnynt, yn ogystal â chynnig llwybrau diffiniedig ar gyfer ymgysylltu ar lefel ryngwladol.
- 4.** Fodd bynnag, mae risgiau posibl ynghlwm wrth fframweithiau cyffredin hefyd. Er enghraifft, drwy arfer dull cyffredin, rhaid ildio rhyddid rheoleiddiol, ac mae hynny'n ei gwneud yn anos i randdeiliaid o Gymru ddylanwadu ar benderfyniadau ac mae risg iddo beri dryswch o ran atebolrwydd i Seneddau unigol.
- 5.** Nid yw'r fath fanteision a risgiau yn unigryw i'r fframweithiau cyffredin yr ydym wedi'u hystyried; maent yn berthnasol i'r rhaglen fframweithiau cyffredin yn ei chyfanrwydd. Ym mis Chwefror 2022, daeth Pwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban i'r casgliad a ganlyn:

"[...] Common Frameworks [...] have the potential to resolve the tensions within the devolved settlement through managing regulatory divergence on a consensual basis while facilitating open trade within the UK internal market.

¹Hysbysiad Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE), 16 Hydref 2017



261. *But the Committee believes there is a risk that the emphasis on managing regulatory divergence at an inter-governmental level may lead to less transparency and Ministerial accountability and tension in the balance of regulations between the Executive and the Legislature".²*

6. Nid yw'r ohebiaeth a gawsom gan Lywodraeth Cymru ynghylch fframweithiau cyffredin bob amser wedi nodi'n glir y risgiau a'r manteision o ddefnyddio'r fframweithiau dan sylw, na sut y gellid eu rheoli.

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn nodi ac yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed, ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau). Dylai Llywodraeth Cymru wneud hyn yn barhaus, gan gynnwys sut y caiff gwybodaeth am risgiau o'r fath ei rhannu â phwyllgorau'r Senedd.

Goblygiadau ar gyfer llunio deddfau a pholisïau i Gymru

7. Mae'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed, ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraethau drafod a chytuno ar ddulliau o ran llunio deddfau a pholisïau, a nodi prosesau ar gyfer datrys unrhyw anghydfodau neu anghytundebau sy'n codi. O'r herwydd, gallai'r fframweithiau, yn ymarferol, gyfyngu ar arfer cymhwysedd datganoledig.

8. Bydd hyn nid yn unig yn effeithio ar Lywodraeth Cymru wrth iddi lunio polisïau neu ddeddfwriaeth, ond bydd hefyd yn effeithio ar ddatblygiad Biliau'r Senedd. Er enghraifft, efallai y bydd angen i Aelod sydd am gyflwyno gwelliannau i Filiau sy'n mynd drwy'r Senedd, neu bwyllgor sy'n bwriadu cyflwyno Bil Pwyllgor, ystyried goblygiadau fframweithiau cyffredin perthnasol, ac o bosibl sut i fodloni'r trefniadau rhynglywodraethol hyn.

9. Gallai hefyd ei gwneud yn anos i randdeiliaid yng Nghymru ddylanwadu ar ddatblygiad cyfraith a pholisïau Cymru.

10. Pan gytunodd y pedair Llywodraeth ar egwyddorion o ran y fframweithiau cyffredin, cytunwyd fel isafswm, i gynnal lefel o hyblygrwydd i deilwra polisïau i anghenion penodol pob tiriogaeth sy'n gyfatebol i reolau presennol yr UE. Rydym yn ystyried bod hon yn egwyddor bwysig.

11. Yn ei adroddiad ym mis Chwefror, argymhellodd Pwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban:

² Pwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban, *Ymchwiliad i farchnad fewnol y DU*, 22 Chwefror 2022, tudalen 42

"...there should be a similar agreement between the Scottish Government and Scottish Parliament that, as a minimum, there should be no dilution of public consultation or of parliamentary scrutiny."³

12. Dylid ystyried a fyddai cytundeb o'r fath rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol.

Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd yn sicrhau bod y fframweithiau ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed, ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd yn cynnal, fel isafswm, lefel o hyblygrwydd i deilwra polisiau i anghenion penodol pob tiriogaeth sy'n gyfatebol i reolau presennol yr UE

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol o ran y fframweithiau cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed, ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau), na fyddant yn arwain at wanhau'r trefniadau o ran ymgynghori â'r cyhoedd a chraffu seneddol wrth lunio polisiau neu'r broses ddeddfwriaethol.

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn sicrhau na fydd y fframweithiau cyffredin hyn yn cyfyngu ar rôl Llywodraeth Cymru, y Senedd, na rhanddeiliaid yng Nghymru wrth lunio deddfau a pholisiau i Gymru. Dylai hyn gynnwys sut y bydd Llywodraeth Cymru yn hwyluso gwaith pwyllgorau neu Aelodau o'r Senedd wrth iddynt ymgysylltu â'r fframweithiau cyffredin os bydd angen, er mwyn sicrhau nad yw'r fframweithiau yn rhwystr i weithredu gweithdrefnau deddfwriaethol y Senedd.

Tryloywder

13. Rydym yn cydnabod bod y broses o sicrhau cytundeb pedair Llywodraeth ar fframweithiau cyffredin o reidrwydd yn ailadroddus ac yn gymhleth o bosibl. Roedd yn ddefnyddiol bod y fersiynau drafft cychwynnol o'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelwch ac Ansawdd Gwaed, ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau), wedi'u cyhoeddi yn gynnar yn 2021. Fodd bynnag, ni chafodd y fframweithiau dros dro terfynol eu cyhoeddi i gyflawni'r gwaith craffu arnynt tan ddiwedd 2021. Mae hynny ymhell o fod yn ddelfrydol, yn enwedig gan eu bod eisoes wedi bod ar waith ers diwedd y cyfnod pontio ar 31 Rhagfyr 2020.

14. Fel sy'n briodol, bydd y fframweithiau yn parhau i gael eu hadolygu. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun dysgu o'r ymateb i bandemig COVID-19.

15. Fodd bynnag, mae'r fframweithiau eu hunain yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig am gyflwyno adroddiadau parhaus i Seneddau a rhanddeiliaid, ymgysylltu â rhanddeiliaid, neu graffu ar

³ Pwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban, *Ymchwiliad i farchnad fewnol y DU*, 22 Chwefror 2022, tudalen 36



newidiadau a gynigiwyd yn ystod y broses adolygu a'r broses diwygio. Rydym yn ystyried pob un o'r materion hyn isod.

Adrodd ar sut y mae fframweithiau'n gweithio

16. Ym mis Tachwedd 2021, roedd y Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin yn Nhŷ'r Arglwyddi wedi'i siomi nad oedd y fframwaith ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd yn cynnwys ymrwymiad i ymgysylltu'n barhaus â'r Senedd. Nododd fel a ganlyn:

"Transparency in this area should include regular statements to legislatures on the functioning of this framework. We recognise that there are a number of initial reviews of the framework scheduled and instead would suggest coinciding the planned three-yearly reviews with such engagement.

*We recommend that the framework should be updated to include a commitment to update each of the 4 UK legislatures on the ongoing functioning of this framework after the conclusion of the three-yearly reviews."*⁴

17. Gwnaeth sylwadau tebyg ym mis Rhagfyr 2021 mewn perthynas â'r fframweithiau ar Ddiogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau).⁵

18. Mewn llythyr at Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Bumed Senedd ym mis Ionawr 2020, ymrwymodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit ar y pryd i "osod adroddiad gerbron y Senedd o leiaf unwaith y flwyddyn, yn asesu'r ffordd y mae pob Fframwaith Cyffredin yn gweithio."⁶ Rydym yn croesawu'r ymrwymiad hwn gan Lywodraeth Cymru.

19. Ym mis Tachwedd 2021, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrth Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd fod y pedair Llywodraeth wedi ymrwymo "i adrodd ar y fframweithiau yn y dyfodol fel rhan o'r broses o oruchwylio'r fframweithiau o fewn yr Adolygiad Cysylltiadau Rhyglywodraethol", ac y byddai hyn yn cynorthwyo pwyllgorau'r Senedd i fonitro fframweithiau yn y tymor hwy.⁷

⁴ [Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi at y Gweinidog Gwladol dros Iechyd](#), 23 Tachwedd 2021

⁵ [Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi at y Gweinidog Gwladol dros Iechyd](#), 14 Rhagfyr 2021

⁶ [Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit at y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol](#), 23 Ionawr 2020

⁷ [Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad](#), 19 Tachwedd 2021

20. Ym mis Ionawr 2021, wrth ymateb i gwestiynau am sut y byddai'r Senedd a rhanddeiliaid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am sut roedd y fframweithiau'n parhau i weithio, gan gynnwys unrhyw newidiadau, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym:

*"Y **disgwyl** yw y bydd adroddiadau ar fframweithiau yn ddogfennau cyhoeddus unwaith y byddant wedi'u cymeradwyo gan Weinidogion portffolio a byddant ar gael i'r pwyllgorau perthnasol yn y pedair gwlad yn ogystal â rhanddeiliaid perthnasol."⁸ [Ychwanegwyd y pwyslais]*

21. Cyfeiriodd y Cwnsler Cyffredinol at y 'disgwyliad' hwn eto mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 31 Ionawr 2022.⁹ Mewn llythyr at y Pwyllgor hwnnw ym mis Mawrth 2022, dywedodd fod swyddogion wrthi'n gweithio ar union fformat y mecanwaith adrodd blynyddol.¹⁰

22. Rydym yn sylweddoli mai trefniadau rhynglywodraethol yw'r fframweithiau a'r adroddiadau cysylltiedig, ac efallai na fydd Llywodraeth Cymru yn gallu gwarantu y bydd y cyd-adroddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi. Serch hynny, rydym yn pryderu na chafwyd cytundeb llawn eto ar y pwynt pwysig hwn o ran tryloywder, ac nad yw'r fframweithiau yn cynnwys ymrwymiad i gyhoeddi adroddiadau.

Argymhelliad 5: Yn unol â'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cytundeb rhynglywodraethol i ddiweddarau'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) i gynnwys ymrwymiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddeddfwrfeydd am weithrediad parhaus y fframweithiau ar ôl i bob adolygiad ddod i ben.

Os na chaiff yr ymrwymiad hwn ei gynnwys yn y fframweithiau, dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y bydd adroddiadau ar y cyd ar y fframweithiau yn cael eu cyhoeddi serch hynny yn unol â'r disgwyliadau a nodwyd.

Os na ellir sicrhau cytundeb rhynglywodraethol ar y pwynt hwn, dylai Llywodraeth Cymru egluro'r rhesymau pam na fydd adroddiadau rhynglywodraethol yn cael eu cyhoeddi, a chadarnhau y bydd, serch hynny, yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol unochrog yn unol â'i hymrwymiad blaenorol.

⁸ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (fframweithiau cyffredin ar Ddiogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau), 17 Ionawr 2022

⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [paragraff 54], 31 Ionawr 2022

¹⁰ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 2 Mawrth 2022

23. Mae'r fframweithiau ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau), yn cynnig ymrwymadau cyfyngedig ar ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r tri fframwaith yn darparu y gall y partion ddefnyddio trydydd partion i roi cyngor o dan rai amgylchiadau. Mae'r fframweithiau ar Ddiogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) hefyd yn cynnwys ymrwymadau i roi gwybod i rhanddeiliaid am unrhyw newidiadau i'r fframweithiau.

24. Yn dilyn gwaith craffu ar y fframweithiau ar Ddiogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau), nodwn fod Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi wedi datgan:

*"While we note the commitment to communicate changes in the frameworks to stakeholders, we regret the absence of a commitment to more meaningful ongoing stakeholder engagement. In our Committee's March 2021 report, we concluded that frameworks were weakened by the lack of stakeholder consultation and recommended that future reviews of frameworks should include an open and well-publicised stakeholder consultation process that reaches beyond the small number of stakeholders previously consulted. We believe that this is necessary in these frameworks as it is with other frameworks."*¹¹

25. Argymhellodd Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi y dylid diweddarau'r fframweithiau i gynnwys ymrwymiad parhaus i ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys proses agored o ymgynghori fel rhan o'r adolygiad dwy flynedd gyntaf.¹² O ran y fframwaith ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, argymhellodd yn yr un modd y dylai'r adolygiad tair blynedd gyntaf gynnwys proses agored o ymgynghori â rhanddeiliaid.¹³

26. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â "rhanddeiliaid perthnasol yn ystod y broses adolygu neu ddiwygio yn ôl y gofyn."¹⁴

¹¹ [Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi at y Gweinidog Gwladol dros Iechyd](#), 14 Rhagfyr 2021

¹² [Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi at y Gweinidog Gwladol dros Iechyd](#), 14 Rhagfyr 2021

¹³ [Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi at y Gweinidog Gwladol dros Iechyd](#), 23 Tachwedd 2021

¹⁴ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (fframweithiau cyffredin ar Ddiogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau)), 17 Ionawr 2022; Llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (fframweithiau cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd), 17 Ionawr 2022

27. Rydym yn cytuno â'n cydweithwyr yn Nhŷ'r Arglwyddi fod yn rhaid ymgysylltu mewn modd parhaus, agored ac ystyrllon â rhanddeiliaid ar weithrediad y fframweithiau hyn. Credwn y dylid darparu ar gyfer hynny yn y fframweithiau eu hunain.

Argymhelliad 6: Yn unol â'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cytundeb rhynglywodraethol i ddiweddarau'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelu lechyd y Cyhoedd a Diogelwch lechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) i gynnwys:

- Darpariaeth y dylai'r adolygiad cyntaf o bob fframwaith gynnwys proses ymgynghori agored â rhanddeiliaid.
- Ymrwymiad i ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid.
- Os na sicrhau'r naill ganlyniad neu'r llall, dylai Llywodraeth Cymru esbonio'r rhesymau pam, ac amlinellu'r hyn a wneir yn lle hynny i sicrhau yr eir ati i ymgysylltu mewn modd parhaus, agored ac ystyrllon â rhanddeiliaid ledled y DU.

Craffu ar newidiadau yn ystod y broses adolygu a'r broses ddiwygio

28. Nid yw'r fframweithiau ar Ddiogelu lechyd y Cyhoedd a Diogelwch lechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) yn cynnig rôl i'r seneddau graffu ar newidiadau a gynigir yn ystod y broses adolygu a'r broses ddiwygio.

29. Yn llythyr y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 17 Ionawr 2022, awgrymodd y dylid hysbysu pwyllgorau'r Senedd os gwneir newidiadau:

"Os gwneir newidiadau i'r fframweithiau, bydd y rhain yn cael eu hysbysu i bwyllgorau'r Senedd er mwyn iddynt gyflawni lefel y gwaith craffu sy'n briodol ac yn angenrheidiol yn eu barn hwy."¹⁵

30. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrth Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd ar 31 Ionawr 2022 fod Llywodraeth Cymru yn agored i ystyried argymhellion a wnaed gan y Senedd neu rhanddeiliaid fel rhan o'r broses o adolygu'r fframweithiau.¹⁶ Mewn llythyr at y Pwyllgor hwnnw ar 2 Mawrth 2022, cadarnhaodd y byddai Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Senedd a

¹⁵ Llythyr oddi wrth y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (fframweithiau cyffredin ar Ddiogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau), 17 Ionawr 2022

¹⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [paragraff 52], 31 Ionawr 2022

rhanddeiliaid pan gaiff fframwaith cyffredin ei adolygu, ac y byddai'n ystyried eu hargymhellion cyn i'r broses adolygu ddod i ben.¹⁷

31. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad hwn. Er bod craffu ar unrhyw newidiadau a wneir yn amlwg yn bwysig, mae'n siŵr y byddai'n fwy effeithiol sicrhau bod y Senedd a seneddau eraill yn gallu craffu ar unrhyw newidiadau arfaethedig cyn iddynt gael eu gwneud. Byddai hefyd yn ddefnyddiol i ni gael ein hysbysu mewn da bryd cyn unrhyw adolygiad arfaethedig fel y gallwn wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a oes angen gwaith manwl i helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu unrhyw newidiadau arfaethedig.

32. Er mwyn osgoi dyblygu gwaith, byddai hefyd yn ddefnyddiol pe bai hysbysiad o'r fath yn cynnwys gwybodaeth am sut a phryd y bydd rhanddeiliaid yn cymryd rhan mewn unrhyw adolygiadau penodol, a sut a phryd y cyhoeddir unrhyw ymatebion i ymgynghoriadau.

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y bydd yn hysbysu pwyllgorau'r Senedd cyn adolygu'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelu lechyd y Cyhoedd a Diogelwch lechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau). Dylai Llywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod pwyllgorau'n cael cyfle i graffu ar unrhyw newidiadau arfaethedig. Dylai'r hysbysiadau gynnwys gwybodaeth am y dull arfaethedig o ymgynghori â rhanddeiliaid.

Datrys anghydfodau

33. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i hysbysu pwyllgorau perthnasol y Senedd am unrhyw anghydfodau sy'n codi o dan y tri fframwaith cyffredin. Rydym yn cydnabod bod y broses datrys anghydfodau a nodir yn y fframweithiau yn cynnwys nifer o gamau, ac mai dim ond yr anghydfodau hynny na ellir eu datrys ar lefel swyddogol a gaiff eu cyfeirio i'r Gweinidogion.

Argymhelliad 8: Er mwyn sicrhau cymesuredd, pan fydd anghydfodau'n codi o dan y fframweithiau cyffredin, dim ond os cânt eu trosglwyddo i lefel Weinidogol y mae angen i Lywodraeth Cymru hysbysu pwyllgorau'r Senedd amdanynt.

34. Nodwn nad yw'r fframweithiau'n pennu unrhyw amserlenni na therfynau amser ar gyfer datrys anghydfodau. Mae'r fframweithiau ar Ddiogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) yn nodi, pan fydd anghydfodau'n codi, y gellir gohirio gwneud deddfwriaeth nes bod pob un o'r pedair Llywodraeth yn cytuno ar sut i fwrw ymlaen.

¹⁷Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 2 Mawrth 2022

35. Mae'n bosibl, felly, y gallai datrys anghydfodau arwain at ohirio deddfwriaeth neu benderfyniadau polisi Llywodraeth Cymru, gan arwain at oblygiadau o ran yr amser sydd ar gael ar gyfer craffu, gweithredu neu wario.

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei barn ynghylch a ddylid pennu unrhyw derfynau amser ar gyfer y broses datrys anghydfodau.

36. Cyhoeddwyd y fframweithiau cyffredin cyn cwblhau'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, ond nodwyd y byddent yn cael eu diweddarau i adlewyrchu canlyniadau'r Adolygiad.

37. Nodwn fod yr Adolygiad bellach wedi'i gwblhau, a'i fod yn cynnwys proses ddiwygiedig ar gyfer datrys anghydfodau rhwng Gweinidogion lle gellir trosglwyddo anghydfodau ynghylch fframweithiau cyffredin i lefel uwch.¹⁸

Argymhelliad 10: Cyn i'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) gael eu cwblhau, dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y byddant yn cael eu diweddarau i adlewyrchu'r broses newydd o ddatrys anghydfodau rhyngweinidogol a nodir yn yr adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022.

Y fframwaith cyffredin dros dro ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd

Y cefndir

38. Mae'r fframwaith cyffredin dros dro ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd yn nodi sut y bydd Llywodraeth y DU, y llywodraethau datganoledig ac asiantaethau iechyd cyhoeddus yn cydweithio er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch iechyd y tu allan i'r UE.

Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU: tryloywder wrth weithredu

39. Mae'r fframwaith ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd yn nodi bod Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU wedi cytuno ar raglen waith a rennir. Mae hefyd yn esbonio y bydd Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU yn disodli Pwyllgor Diogelwch Iechyd yr UE yn y cyd-destun domestig. Nodwn fod Pwyllgor Diogelwch Iechyd yr UE yn cyhoeddi gwybodaeth am ei waith, gan gynnwys ei reolau o ran gweithdrefn, aelodaeth, dogfennau cefndirol ac adroddiadau ar ei weithgarwch.¹⁹

¹⁸ Llywodraeth y DU, *Adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol*, 13 Ionawr 2022

¹⁹ Gweler y Comisiwn Ewropeaidd, *y Pwyllgor Diogelwch Iechyd a Adroddiad y Pwyllgor Diogelwch Iechyd ar achosion o COVID-19* [fel ym mis Chwefror 2022]



40. Credwn y dylid cael lefel debyg o dryloywder o ran gwaith a gweithrediad Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU.

Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol y dylai Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU gyhoeddi ei raglen waith a rennir a rhoi diweddariadau rheolaidd arni. Dylai hyn gynnwys cyhoeddi adroddiadau ar ei gyfarfodydd.

Adnoddau a chapasiti

41. Mae'r fframwaith ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd yn nodi bod y partition wedi cytuno y caiff y rhaglen waith a rennir ei rhoi ar waith heb fynd y tu hwnt i'w hadnoddau presennol, ac na fydd angen i unrhyw barti ddyrannu adnoddau newydd.

42. Rhoddodd Iechyd Cyhoeddus yr Alban dystiolaeth i Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Senedd yr Alban ar 21 Rhagfyr 2021, pan fynegodd bryderon am ei allu i gyflawni ei gyfrifoldebau o dan y rhaglen waith heb fynd y tu hwnt i'w adnoddau presennol, yn enwedig yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i bandemig COVID-19:

"In the programme that has been set by the Health Protection Committee, Scotland has been identified as the lead in three areas—review of disease notifications, analysis of the four-nations working groups and a look at the evolving science of genomics with regard to collaborations, co-operation and sharing of data sets and information. Those are big pieces of work.

I can speak only for Public Health Scotland, but I have to say that we would be extremely hard-pressed to contribute meaningfully to those pieces of work and reviews."²⁰

43. Yn llythyr y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol atom ar 17 Ionawr 2022, cydnabu y byddai angen adnoddau ar gyfer rhaglen waith Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU a Grŵp Goruchwylio Diogelu Iechyd y Pedair Gwlad, sy'n sail i'r fframwaith cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, "er mwyn sicrhau y bydd Cymru yn gallu gwneud cyfraniad llawn a pharhaus, ac mae asesiad o'r adnoddau sydd eu hangen wrthi'n cael ei gynnal ar hyn o bryd."²¹ Ar 12 Ionawr 2022, dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthym y byddai adnoddau ar gyfer cynrychiolaeth Cymru ar Bwyllgor Diogelu Iechyd y DU a'r Grŵp Goruchwylio yn cael eu talu o'r cyllidebau presennol.²²

²⁰ Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Senedd yr Alban, [y Cofnod Swyddogol](#), 21 Rhagfyr 2021

²¹ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (fframwaith cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, 17 Ionawr 2022

²² Llythyr oddi wrth Iechyd Cyhoeddus Cymru, 12 Ionawr 2022

Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru gadarnhau a oes ganddynt unrhyw bryderon ynghylch y goblygiadau posibl o ran adnoddau neu gapasiti sy'n gysylltiedig â rhaglenni gwaith Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU neu'r Grŵp Goruchwylio Diogelu Iechyd. Dylai hyn gynnwys nodi canlyniad yr asesiad o adnoddau y cyfeiriodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ato yn ei llythyr dyddiedig 17 Ionawr 2022, ac, os yw'r adnoddau ar gyfer y rhaglen waith yn cael eu talu o gyllidebau presennol, manylion sy'n dangos o ble y trosglwyddwyd yr adnoddau ariannu a'r adnoddau staff a ddyrannwyd i'r rhaglen waith.

Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru sicrhau bod y rhaglenni gwaith a gyhoeddir gan Bwyllgor Diogelu Iechyd y DU a'r Grŵp Goruchwylio Diogelu Iechyd yn cynnwys manylion pa gyrff a fydd yn gyfrifol am gyflawni pa weithgareddau, ac o ble y daw'r adnoddau ar gyfer gweithgareddau o'r fath.

Cynrychiolaeth ac ysgrifenyddiaeth

44. Mae'r fframwaith yn darparu y bydd cadeirydd Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU, sef rôl a fydd yn newid ar batrwm cylch, yn cael ei gefnogi gan ysgrifenyddiaeth a ddarperir gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y DU. Bydd cadeirydd y Grŵp Goruchwylio, sydd hefyd ar batrwm cylch, yn cael ei gefnogi gan ysgrifenyddiaeth o Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU. Ym mhob achos, mae'r fframwaith yn darparu y caiff pob gwlad hefyd ddynodi ysgrifenyddiaeth i gefnogi cynnydd y grŵp ochr yn ochr â'r cynrychiolydd parhaol.

45. Felly, er y bydd cadeiryddion Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU a'r Grŵp Goruchwylio yn newid rhwng y pedair gwlad, cyrff y DU fydd yn darparu'r ysgrifenyddion yn bennaf.

Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru egluro pam na fydd cydysgrifenyddiaeth yn cael ei sefydlu ar gyfer Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU na Grŵp Goruchwylio Diogelu Iechyd y Pedair Gwlad. Dylent hefyd nodi a ydynt yn bwriadu dynodi unrhyw ysgrifenyddiaeth ategol ar gyfer y naill grŵp neu'r llall.

Rhwymedigaethau rhyngwladol

46. Mae'r fframwaith yn cydnabod mai nod polisi diogelu iechyd y cyhoedd yw diogelu poblogaethau sy'n byw ar draws rhanbarthau daearyddol a ffiniau rhyngwladol. Mae'n nodi ei fod yn mabwysiadu dull o ddiogelu iechyd a diogelwch iechyd trawsffiniol sy'n cydnabod pob perygl. Felly, mae'n ystyried rhwymedigaethau rhyngwladol yn y meysydd hyn, megis Rheoliadau Iechyd Rhyngwladol Sefydliad Iechyd y Byd a gofynion y DU a'r UE y cytunwyd arnynt yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

47. Yn ei llythyr dyddiedig 17 Ionawr 2022, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'r fframwaith yn galluogi'r pedair Llywodraeth i gytuno ar safbwyntiau a dulliau

gweithredu cyffredin lle y bo'n briodol, ac i gryfhau cydgysylltiad mewn meysydd eraill. Gallai hyn gynnwys datblygu dulliau'r DU gyfan o ymdrin â materion iechyd y cyhoedd y gellid eu cyfleu i bartneriaid rhyngwladol, gan gynnwys Sefydliad Iechyd y Byd, y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Rheoli Clefydau ac Aelod-wladwriaethau'r UE.

Argymhelliad 15: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwybodaeth am weithgarwch rhyngwladol sy'n rhan o gwmpas y fframwaith cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd yn cael ei chynnwys yn ei hadroddiadau rheolaidd i'r Senedd ar weithrediad y fframweithiau cyffredin. Dylai hyn gynnwys:

Gweithgarwch diweddar gan Lywodraeth Cymru neu Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Manylion am y safbwyntiau cyffredin y cytunwyd arnynt gyda phartion eraill i'r fframwaith at ddibenion ymgysylltu rhyngwladol.

Gwybodaeth am ddatblygiadau neu rwymedigaethau rhyngwladol sydd ar y gweill a fyddai o fewn cwmpas y fframwaith.

Cysylltiadau rhwng asiantaethau'r DU a'r UE

48. Ym mis Rhagfyr 2021, llofnododd Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Rheoli Clefydau.²³

49. Fodd bynnag, nodwn fod Iechyd Cyhoeddus yr Alban wedi dweud wrth Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Senedd yr Alban fod ganddo rai pryderon ynghylch y graddau y rhoddwyd cyfle i'r gweinyddiaethau datganoledig ymgysylltu â'r broses o gytuno ar y Memorandwm Cyd-destun:

*"We are not quite there yet, because the current technical committee has 15 representatives from the UK Health Security Agency but only one from Wales, two from Northern Ireland and three from Scotland. Some work is therefore needed to make sure that we are adequately represented in those technical discussions."*²⁴

50. Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn darparu y gellir caniatáu mynediad i System Rhybudd ac Ymateb Cynnar yr UE ar gyfer clefydau heintus ar gais. Fodd bynnag, nid yw'n glir o'r dogfennau fframwaith a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a sicrhawyd hynny.

Argymhelliad 16: Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru egluro sut y gwnaethant gymryd rhan yn y broses o ddatblygu a chytuno ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r

²³ Llywodraeth y DU, [Datganiad i'r wasg: UKHSA signs memorandum of understanding with ECDC](#), 2 Rhagfyr 2021

²⁴ Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Senedd yr Alban, [y Cofnod Swyddogol](#), 21 Rhagfyr 2021

Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Rheoli Clefydau, a sut y bydd Cymru yn ymgysylltu â'r Ganolfan drwy'r fframwaith cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd.

2. Mae'r datganiad diweddar a wnaed gan Weinidog yr Economi **ar 10 Mawrth** bod cyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau'r DU a'r UE (IMG) wedi'i alw gyda dim ond dwy awr o rybudd yn peri pryder hefyd. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym ar 14 Mawrth ei fod yn gobeithio mai "trafferthion cychwynnol cynnar" oedd y rhain. Gobeithiwn yn wir y bydd Llywodraeth y DU, a holl lywodraethau eraill y DU, pan fo'n briodol, yn ceisio sicrhau bod cyfarfodydd Grwpiau Rhyngseneddol yn y dyfodol yn cael eu galw gyda rhybudd rhesymol, a'u bod yn gweithredu yn unol â nodau canlyniad yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhyngseneddol.
3. Rydym hefyd yn pryderu am fethiant ymddangosiadol gweithio rhynglywodraethol mewn perthynas â hynt y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael), fel yr amlinellwyd yn llythyr Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip **dyddiedig 16 Mawrth**. Mae'n ymddangos bod y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi gwrthod cynnwys eithriad o gymhwyso paragraff 11(1)(a) o Atodlen 7B i *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* ar gais Llywodraeth Cymru, a'i phenderfyniad dilynol i ddiwygio'r Bil i ddileu cymhwysiad y Bil i Gymru yn gyfan gwbl, yn cynrychioli methiant yn y cyfathrebu rhwng llywodraethau a methiant i ddatrys problem a ddylai, yn ein barn ni, fod yn gymharol syml i'w goresgyn.

Rydym felly'n pryderu nad yw'r prosesau rhynglywodraethol newydd yn cael effaith ar unwaith a, phe na bai achosion sylfaenol y problemau hyn yn cael sylw fel mater o frys, gallai'r cynnydd cychwynnol a wnaed o ran yr Adolygiadau o Gysylltiadau Rhynglywodraethol arafu'n ddiangen, gan leihau'r buddion y bwriadwyd i'r trefniadau newydd eu cyflwyno.

Edrychwn ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y cyfarfod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, y Llywydd; y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS, Ysgrifennydd Gwladol Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol; Pwyllgor Swyddfa Weithredol Cynulliad Gogledd Iwerddon, Pwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban, Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi, a Phwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Weinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies

Cadeirydd



Eitem 7.1
Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-JH-1187-22

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.cymru

22 Mawrth 2022

Annwyl Huw,

Rwyf yn ysgrifennu i'ch hysbysu i Dŷ'r Arglwyddi gytuno ar welliant 64A i'r Bil Cenedligrwydd a Ffiniau ar 8 Mawrth, sy'n mewnosod cymal 62 newydd yn Rhan 4 o'r Bil, a atodir isod.

Mae'r Bil bellach wedi cyrraedd ei Gyfnodau Terfynol a bydd Tŷ'r Cyffredin yn ystyried gwelliannau Tŷ'r Arglwyddi heddiw. Yn anffodus, nid yw hyn yn gadael unrhyw gyfle i'r Senedd ystyried a chraffu ar y gwelliant cyn i'r Cyfnod Terfynol gael ei gwblhau. Mae hyn hefyd yn golygu bod Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â'r Bil heb sicrhau cydsyniad deddfwriaethol gan y Senedd, nac yn wir gan unrhyw un o'r Llywodraethau Datganoledig. Mae hyn yn gyfan gwbl annerbyniol ac yn torri confensiwn Sewel.

Roedd yn fwiad gennyf osod SLCM am y gwelliant hwn. Er hynny, cafodd y Bil ei Drydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 14 Mawrth ac mae bellach wedi dechrau ar Gyfnodau Terfynol ystyried gwelliannau ('Ping Pong'). Yn ystod y cam hwn, mae'n debygol y bydd gwelliannau y cytunwyd arnynt yn Nhŷ'r Arglwyddi yn cael eu gwrthdroi ac y caiff gwelliannau pellach eu gwneud.

O gofio bod amseroedd ansicr ac annisgwyl o'n blaenau o ran amserlen Senedd y DU a Llywodraeth y DU a phroses y Bil, rwyf wedi penderfynu dal yn ôl o ran gosod SLCM ynghylch cymal 62 newydd a gyflwynwyd gan welliant 64A. Pan fydd sicrwydd ynghylch y Bil, a phan fydd y canlyniadau ar lefel y DU yn glir, byddaf yn cymryd camau priodol mewn ymateb i unrhyw welliannau pellach a wneir.

Yn gywir,

Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 56
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

62 Age assessments: restrictions

- (1) Age assessments under section 54 or 55 must only be undertaken if there is significant reason to doubt the age of the age-disputed person.
- (2) A person conducting age assessments under section 54 or 55 must be a local authority social worker.
- (3) Age assessments must be undertaken in accordance with the Association of Directors of Children's Services Age Assessment Guidance or equivalent guidance in Scotland, Wales and Northern Ireland.
- (4) When an age assessment is conducted, a process must be used that allows for an impartial multi-agency approach, drawing on a range of expertise, including from—
 - (a) health professionals,
 - (b) psychologists,
 - (c) teachers,
 - (d) foster parents,
 - (e) youth workers,
 - (f) advocates,
 - (g) guardians, and
 - (h) social workers.
- (5) When making regulations under section 56, the Secretary of State must not specify scientific methods unless the Secretary of State receives written approval from the relevant medical, dental and scientific professional bodies that the method is both ethical and accurate beyond reasonable doubt for assessing a person's age.
- (6) Any organisation developed to oversee age assessments must be independent of the Home Office.
- (7) The standard of proof for an age assessment is reasonable degree of likelihood.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/0853/22

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddDCC@senedd.cymru

23 Mawrth 2022

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu at y Pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ar y ddeddfwriaeth a wnaed fel sail i'r cynlluniau peilot etholiadol sy'n cael eu darparu yng Nghymru fel rhan o'r Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022.

Fel y gwyddoch, ar 9 Tachwedd 2021, cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ddatganiad ysgrifenedig yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar gynnydd, ac yn cadarnhau bod pedwar awdurdod lleol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau peilot etholiadol yn eu hardaloedd. [Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar dreialu trefniadau pleidleisio hyblyg \(9 Tachwedd 2021\) | LLYW.CYMRU.](#) Diben y cynlluniau peilot yw gweld a allwn ni ei gwneud hi'n haws i bobl bleidleisio drwy gynnig hyblygrwydd o ran pryd a lle y gallant bleidleisio. Bydd y trefniadau hyn yn dod â'r blwch pleidleisio yn nes at fywydau bob dydd y bobl. Mae hyn yn dod â ni gam yn nes at sicrhau bod etholiadau yng Nghymru mor hygyrch â phosibl ac y gall pawb sydd eisiau pleidleisio wneud hynny. Bydd yr hyn a fydd yn cael ei ddysgu o'r cynlluniau peilot yn cael ei ddefnyddio i lywio gwelliannau hirdymor i'r ffordd y bydd pobl yn pleidleisio ac yn helpu i leihau'r diffyg democrataidd.

Cynhelir cynlluniau peilot mewn pedair ardal:

Blaenau Gwent – bydd Parth Dysgu Glynebwy a leolir yn ganolog yn cael ei ddefnyddio fel gorsaf bleidleisio ymlaen llaw i holl breswylwyr y sir, gan gynnwys myfyrwyr y coleg sy'n gymwys i bleidleisio yn yr etholiadau. Bydd trefniadau pleidleisio ymlaen llaw ar gael ar y dydd Mawrth a'r dydd Mercher cyn diwrnod yr etholiad.

Pen-y-bont ar Ogwr - bydd gorsafydd pleidleisio mewn rhai wardiau lle mae canran isel o bobl yn bwrw eu pleidlais ar agor ar gyfer pleidleisio ymlaen llaw ar y dydd Mawrth a'r dydd Mercher cyn diwrnod yr etholiad. Bydd gorsaf bleidleisio newydd yn cael ei chreu hefyd mewn ysgol ar y dydd Mawrth cyn diwrnod yr etholiad i'w defnyddio gan fyfyrwyr sydd wedi cofrestru yn yr ysgol honno ac sy'n gymwys i bleidleisio mewn wardiau penodol.

Caerffili – bydd swyddfydd y cyngor yn Ystrad Mynach yn cael eu defnyddio fel gorsaf bleidleisio ymlaen llaw i holl breswylwyr y sir dros y penwythnos cyn diwrnod yr etholiad.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 58
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Torfaen – bydd swyddfeydd y cyngor ym Mhont-y-pŵl yn cael eu defnyddio fel gorsaf bleidleisio ymlaen llaw i holl breswylwyr y sir dros y penwythnos cyn diwrnod yr etholiad.

Mae'r pedwar gorchymyn a wnaed er mwyn cyflawni'r cynlluniau peilot hyn wedi'u datblygu a'u gwneud yn unol ag adran 10 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000. Nid ydynt yn orchmynion gweithdrefn ac felly nid ydynt wedi'u gosod gerbron y Senedd. Cynhaliwyd proses ymgynghori ffurfiol ar y gorchmynion hefyd gyda'r Comisiwn Etholiadol fel sy'n ofynnol gan adran 10(1A) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000. Mae'r Comisiwn yn cefnogi gwneud y gorchmynion hyn a daw'r gorchmynion i rym ar 23 Mawrth 2022. Gellir dod o hyd iddynt yma:

[Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Caerffili \(Cynllun Peilot Etholiadol\) 2022 | LLYW.CYMRU](#)

[Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr \(Cynllun Peilot Etholiadol\) 2022 | LLYW.CYMRU](#)

[Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Torfaen \(Cynllun Peilot Etholiadol\) 2022 | LLYW.CYMRU](#)

[Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Torfaen \(Cynllun Peilot Etholiadol\) 2022 | LLYW.CYMRU](#)

Mae'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad hefyd wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Senedd ar y cynnydd. Gellir dod o hyd i'r datganiad yma:

[Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar dreialu trefniadau pleidleisio hyblyg \(23 Mawrth 2022\) | LLYW.CYMRU](#)

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru

24 Mawrth 2022

Annwyl Huw

Diolch am adroddiad y Pwyllgor ar 17 Mawrth ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Diogelwch Adeiladau (y Bil). Gweler argymhellion y Pwyllgor ynghyd â'm hymateb innau isod.

Argymhelliad 1. *Dylai'r Gweinidog, cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol perthnasol, roi esboniad pellach a llawn o ran y datganiadau a wnaed ym mharagraff 48 o Femorandwm Rhif 3, a mynd i'r afael yn benodol â'n pryderon ym mharagraffau 80 ac 81 o'n hadroddiad.*

Ymateb

Mae sut i fynd ati i wneud iawn ar ran perchnogion cartrefi yn gymhleth, ac mae nifer o godau ymarfer o fewn y diwydiant, sy'n gwneud pethau'n anodd. Pan aiff rhywbeth o'i le, yn amlwg dylai adeiladwyr tai a darparwyr gwarant gyflawni eu rhwymedigaethau ac unioni'r sefyllfa. Fodd bynnag, mae yna fylchau yn y ddarpariaeth ar hyn o bryd y mae angen mynd i'r afael â nhw, ac mae'r rheolaeth dros sefyllfaoedd o'r fath yn sicr o fantais i'r datblygwr. Nod creu rôl yr Ombwdsmon Cartrefi Newydd yw ceisio unioni'r cydbwysedd hwnnw, fel bod y broses o ddatrys anghydfod yn deg i bawb.

Ni fydd gweithredu systemau gwahanol ar draws gwahanol rannau o'r DU yn helpu i leihau'r cymhlethdod i berchnogion cartrefi. Bydd cael dull safonol, a roddir ar waith ar adeg benodol ar draws pob rhan berthnasol o'r DU (Cymru, Lloegr a'r Alban ar hyn o bryd), yn lleihau'r dryswch i achwynwyr a datblygwyr fel ei gilydd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 60
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cydnabyddir bod gan y Senedd gymhwysedd i basio deddfwriaeth gynhwysfawr a allai gael yr un effaith, i raddau sylweddol, â darpariaethau'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd yn y Bil Diogelwch Adeiladau. Fodd bynnag, rydym wedi nodi ein bod am fynd ati'n bragmataidd i ddefnyddio deddfwriaeth y DU wrth gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru mewn meysydd datganoledig.

Ym mharagraff 81 ei adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 3, gofynnodd y Pwyllgor 'a yw'r Gweinidog o'r farn y byddai ceisio caniatâd o'r fath yn ei ddileu'n barhaol o gymhwysedd y Senedd fel y'i nodir yn Neddf 2006, ac felly'n lleihau ei chymhwysedd?' Oni bai bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau'r diwygiad perthnasol i ychwanegu'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd at y cyrff trawsffiniol yn Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gallai'r gofyniad i gael cydsyniad un o Weinidogion Llywodraeth y DU cyn deddfu ynghylch mecanwaith unioni benodol i Gymru fod wedi effeithio ar allu'r Senedd i ddeddfu'n rhydd yn hyn o beth. Fodd bynnag, gan fod diwygiad o'r fath wedi'i sicrhau, nid yw'n ofynnol i'r Senedd gael cydsyniad un o Weinidogion Llywodraeth y DU cyn mynd ati i ddileu neu addasu swyddogaethau'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd.

Argymhelliad 2. *Unwaith eto, gofynnwn i'r Gweinidog, a holl Weinidogion Cymru, sicrhau bod memoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodir gerbron y Senedd yn cynnwys gwybodaeth lawn, gywir a thryloyw, ac yn cyflawni'r hyn sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 29.*

Ymateb

Rwy'n cydnabod pwysigrwydd memoranda cydsyniad deddfwriaethol clir i alluogi'r pwyllgor, a phartion eraill sydd â diddordeb, i asesu deddfwriaeth sy'n effeithio ar Gymru. Byddaf yn gofyn i'm swyddogion gydgysylltu â'u cymheiriaid ynghylch sut caiff diwygiadau eu cyfeirnod i er mwyn gallu sicrhau croesyfeirio cliriach.

Wrth ymateb i rai o bwyntiau eraill eich adroddiad, rwy'n cynnig yr ymateb ychwanegol canlynol. Rwy'n nodi eich siom ynghylch fy marn ei bod yn "ymarferol ac yn briodol i'r Ysgrifennydd Gwladol gychwyn darpariaethau'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd". Fodd bynnag, gan y caiff swyddogaeth yr Ombwdsmon Cartrefi Newydd ei rhoi ar waith ar adeg benodol, credaf ei bod yn briodol i'r Ysgrifennydd Gwladol gychwyn y darpariaethau. Bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau eglurder wrth gyfathrebu gwybodaeth ynghylch yr Ombwdsmon.

Rwy'n cydnabod y safbwynt canlynol a fynegir gennych: "Nid ydym o'r farn ei bod yn ddigonol nac yn briodol na fydd gan y Senedd (na Gweinidogion Cymru) rôl ffurfiol cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi a chymeradwyo cod ymarfer ynghylch y safonau ymddygiad ac ansawdd y gwaith a ddisgwylir gan aelodau o gynllun yr Ombwdsmon Cartrefi Newydd". Fodd bynnag, oherwydd y rhesymau a roddwyd mewn ymateb i Argymhelliad 1, mae yna ddadl gref pam y dylai'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd fod yn gorff trawsffiniol yn hytrach nag yn benodol i Gymru. At hyn, mae [ymateb Llywodraeth y DU](#) i'r ymgynghoriad: [Redress for Purchasers of New Build Homes and the New Homes Ombudsman](#), sy'n ymchwilio i fanylion y ddeddfwriaeth arfaethedig ac i sut y caiff swyddogaeth Ombwdsmon Cartrefi Newydd ei darparu, yn nodi bod 91% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai cylch gwaith yr Ombwdsmon Cartrefi Newydd fod yn gorff ar gyfer y DU gyfan.

Mae swyddogion wedi gweithio'n agos iawn gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod gan Weinidogion Cymru rôl ffurfiol a phwrpasol. Mae'r darpariaethau penodol ar wyneb y Bil i ymgynghori yn gosod dyletswydd statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar wahanol elfennau o ddarpariaethau'r Ombwdsmon Cartrefi Newydd, gan gynnwys cyhoeddi, diwygio neu ddisodli cod ymarfer. Rydym yn disgwyl gweld trafodaeth yn gynnar mewn proses, wrth i elfennau gael eu ffurfio, ac i safbwyntiau Gweinidogion Cymru gael eu hystyried wrth gwblhau'r cynigion yn derfynol.

Mae'r darpariaethau yn y Bil yn adlewyrchu graddau'r cydweithredu a'r ymgysylltu cynhyrchiol â Llywodraeth y DU.

Yn gywir



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

24 Mawrth 2022

Annwyl Huw,

Ysgrifennais atoch ym mis Gorffennaf 2021 ynghylch datblygu deddfwriaeth sy'n ymwneud â Chynllun Masnachu Allyriadau'r DU (ETS y DU). Nod ETS y DU yw cymell datgarboneiddio er mwyn cyrraedd ein targed lleihau nwyon tŷ gwydr o allyriadau sero-net erbyn 2050. Er mwyn sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn addas i'r diben, mae Awdurdod ETS y DU, sy'n cynnwys pedair Llywodraeth y DU, yn lansio'r ymgynghoriad "Datblygu ETS y DU" ar 25 Mawrth 2022, a fydd yn rhedeg am 12 wythnos.

Nod yr ymgynghoriad yw symud y cynllun tuag at gydymffurfio â sero-net tra'n sicrhau bod busnesau'n parhau i fod yn gystadleuol yn rhyngwladol. Yn ogystal, ei nod yw atal gollyngiadau carbon a nodi meysydd i'w gwella drwy gydol gweithrediad y cynllun.

Mae'r ymgynghoriad yn adlewyrchu ein hymrwymiad presennol i gysoni cap ETS y DU â llwybr sero net erbyn mis Ionawr 2024, gan ganiatáu i'r diwydiant roi rhybudd i baratoi ar gyfer newidiadau yn y farchnad. Mae'n cynnwys adolygiad o ddyraniadau am ddim i sicrhau ein bod yn diogelu busnesau sydd fwyaf agored i brisio carbon. Yn ogystal, bydd archwiliad o ehangu ETS y DU i sectorau priodol ychwanegol o fewn adolygiad cyntaf ETS y DU, gyda'r gweithredu heb fod yn gynharach na 2026.

Nid oes unrhyw oblygiadau deddfwriaethol uniongyrchol a fydd yn deillio o'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, rwy'n ysgrifennu atoch i gadw tryloywder a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi wrth i'r ymgynghoriad fynd rhagddo. Byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar 25 Mawrth a disgwylir ymateb ar y cyd gan Lywodraeth Awdurdod EtS y DU yn ystod hydref 2022.

Yr wyf hefyd yn rhannu'r diweddariad hwn â Phwyllgor y Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru
SeneddTai@senedd.cymru

22 Mawrth 2022

Annwyl Huw a John,

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i'r Pwyllgorau am hynt y gwaith mewn perthynas â'r Bil Etholiadau (y Bil) sy'n mynd drwy gyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar hyn o bryd. Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau i'w hystyried, sy'n gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Felly, rwyf heddiw wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) gerbron y Senedd.

Yn fy llythyr dyddiedig 16 Chwefror, rhoddais wybod ichi y byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i'r gwelliannau hyn ochr yn ochr â'r dull o ymdrin â'r Bil ehangach. Yn anffodus, oherwydd negodiadau a thrafodaethau gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â nifer o ddarpariaethau'r Bil, dim ond nawr yr wyf mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi. Rwy'n ymddiheuro bod y diweddariad hwn yn hwyr, ond yn gobeithio y byddwch yn cytuno ein bod mewn sefyllfa well o lawer mewn perthynas â'r Bil hwn.

Fel y cofiwch, ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno fis Gorffennaf 2021, gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 9 Medi 2021. Roedd y Memorandwm yn cadarnhau na allwn argymhell cydsynio i'r Bil fel y'i cyflwynwyd, ac y byddai'n well gennyf ystyried rhai o'r materion a godwyd drwy ddeddfwriaeth y Senedd.

Rwy'n falch o ddweud ein bod, yn dilyn ymgysylltu cadarnhaol â Llywodraeth y DU, wedi llwyddo i sicrhau gwelliannau eithrio i'r Bil er mwyn eithrio etholiadau datganoledig Cymru rhag cwmpas amryw o ddarpariaethau. O ganlyniad, mae gwelliannau Llywodraeth y DU a gyflwynwyd ar 28 Chwefror wedi mynd i'r afael â'm pryderon blaenorol, a nodwyd yn y Memorandwm gwreiddiol, ynghylch dylanwad gormodol, y Comisiwn Etholiadol, gwariant tybiannol a mesurau cyllid gwleidyddol eraill.

Crynhair y rhain isod:

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 68
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dylanwad Gormodol - Cymal 8 ac Atodlen 5

Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd yn mewnosod adran newydd, sef 114A yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Deddf 1983) sy'n darparu mai dim ond i etholiadau Senedd y DU ac etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr y mae'r drosedd newydd o ddylanwad gormodol, fel y'i mewnosodir gan y ddarpariaeth honno, yn berthnasol. Felly, mae'r drosedd bresennol o ddylanwad gormodol yn adran 115 o Ddeddf 1983 wedi'i chadw ar gyfer etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

Ceir sefyllfa lle bydd adran 114A o Ddeddf 1983 yn parhau i fod yn berthnasol i etholiadau Senedd Cymru. Mae hyn oherwydd Atodlen 1A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), sy'n anghymhwysu person rhag bod yn Aelod o Senedd Cymru neu'n ymgeisydd mewn etholiad i fod yn Aelod o'r Senedd honno mewn amgylchiadau lle na ellir ei ethol i Dŷ'r Cyffredin o ganlyniad i gyflawni arfer llwgr o dan Ddeddf 1983. Gan y bydd y drosedd newydd yn adran 114A yn bodloni'r diffiniad o arfer llwgr ['corrupt practice'], bydd unigolion sy'n cael eu hatal rhag bod yn Aelod o Senedd y DU o ganlyniad i gyflawni'r drosedd honno yn cael eu hatal hefyd rhag bod yn Aelod o Senedd Cymru.

Yn ein barn ni, mae'n briodol nad yw'r Bil yn diwygio Atodlen 1A i Ddeddf 2006 i newid ei heffaith. Mewnosodwyd yr Atodlen hon yn Neddf 2006 gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. Byddai newid y meini prawf ar gyfer anghymhwysu unigolion rhag bod naill ai'n Aelod o Senedd Cymru yn newid sylweddol i'r drefn bresennol. Byddwn, maes o law, yn ystyried yn llawn y goblygiadau sy'n deillio o adran 114A o Ddeddf 1983 gyda'r bwriad o benderfynu a allai fod angen cyflwyno deddfwriaeth y Senedd i ddiwygio'r drefn bresennol.

Cymal 14 - Datganiad Polisi a Strategaeth

Mae'r gwelliannau a osodwyd yn diwygio'r adran 4(3A) newydd sydd i'w mewnosod yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Deddf 2000) drwy eithrio swyddogaethau datganoledig Cymru rhag cwrmpas unrhyw Ddatganiad Polisi a Strategaeth sydd i'w gyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y ddarpariaeth honno.

Cymal 18(1) - Gwariant tybiannol: defnyddio eiddo etc. ar ran ymgeiswyr ac eraill

Mae'r gwelliant a gyflwynwyd gan y Llywodraeth yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru, drwy ddiwygio adran 90C o Ddeddf 1983 fel nad oes darpariaeth yn cael ei gwneud bellach mewn perthynas â chymhwyso'r rheolau ar wariant ymgyrchu i ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

Cymal 19 - Codau ymarfer ar dreuliau

Byddai cymal 19(2) fel y'i drafftwyd yn wreiddiol wedi addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag etholiadau datganoledig drwy ddiwygio pŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi cod ymarfer gan y Comisiwn Etholiadol o dan baragraff 14A o Atodlen 4A i Ddeddf 1983, yn ogystal â phŵer Gweinidogion Cymru i ddynodi'r dyddiad y daw cod ymarfer o dan baragraff 14A i rym. Mae'r gwelliannau a osodwyd ar 28 Chwefror yn mynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru drwy hepgor swyddogaethau a roddwyd i Weinidogion Cymru mewn perthynas at etholiadau datganoledig.

Cymal 20 - Personau awdurdodedig nad yw'n ofynnol iddynt dalu treuliau drwy asiant etholiadol

Roedd cymal 20(1) yn diwygio adran 73 o Ddeddf 1983 fel nad yw treuliau a ysgwyddir gan drydydd parti o dan adran 75 mewn perthynas ag etholiadau lleol yn gorfod cael eu talu gan yr asiant etholiadol. Mae'r gwelliant a gyflwynwyd yn eithrio treuliau a ysgwyddir mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru rhag y diwygiadau i Ddeddf 1983.

Cymal 24 - Cyfyngiad ar ba drydydd partiön all ysgwyddo gwariant a reolir

Roedd y darpariaethau gwreiddiol yn mewnosod adran newydd, sef 89A yn Neddf 2000 a oedd yn cael yr effaith o gyfyngu ar ba drydydd partiön a allai ysgwyddo gwariant a reolir. Byddai'r darpariaethau hynny wedi cynnwys gwariant a ysgwyddir mewn perthynas ag etholiadau Senedd Cymru. Mae'r etholiadau hynny wedi'u heithrio rhag y darpariaethau drwy'r gwelliannau a osodwyd ar 28 Chwefror, sy'n darparu mai dim ond i etholiadau cyffredinol Senedd y DU neu etholiadau cyffredinol i Gynulliad Gogledd Iwerddon y mae'r cymal yn gymwys.

Cymal 25 - Trydydd partiön sy'n gallu rhoi hysbysiad at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf 2000

Roedd y darpariaethau gwreiddiol yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig i ddiwygio adran 88(2) o Ddeddf 2000 i'r perwyl o ddiwygio drwy ychwanegu, dileu neu amrywio disgrifiadau trydydd partiön. Mae'r gwelliant a gyflwynwyd yn mynd i'r afael â'n pryderon drwy gyfyngu ar arfer y pŵer sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau at ddibenion cyfnodau sy'n ymwneud ag etholiadau cyffredinol Senedd y DU neu etholiadau cyffredinol i Gynulliad Gogledd Iwerddon.

Cymal 26 - Trydydd partiön cydnabyddedig: newidiadau i derfynau presennol etc.

Roedd y ddarpariaeth hon yn diwygio gwahanol adrannau o Ddeddf 2000 i'w gwneud yn ofynnol i ymgyrchwyr trydydd parti roi hysbysiad i'r Comisiwn Etholiadol ar lefel wario is nag sy'n ofynnol ar hyn o bryd. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd yn mynd i'r afael â'n pryderon drwy sicrhau mai dim ond mewn perthynas â chyfnodau sy'n ymwneud ag etholiadau cyffredinol Senedd y DU neu etholiadau cyffredinol i Gynulliad Gogledd Iwerddon y mae'r ddarpariaeth yn gymwys.

Cymal 27 - Ymgyrchu ar y cyd gan bleidiau cofrestredig a thrydydd partiön

Roedd y cymal hwn yn diwygio adran 94(6) o Ddeddf 2000 i wneud darpariaeth sy'n golygu y bydd ymgyrchwyr trydydd parti a phleidiau gwleidyddol sy'n gweithio gyda'i gilydd ar ymgyrch ar y cyd yn adrodd am unrhyw wariant cysylltiedig ac yn nodi'r partiön sy'n gysylltiedig â'r trefniant. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd yn mynd i'r afael â'n pryderon drwy sicrhau mai dim ond mewn perthynas â chyfnodau sy'n ymwneud ag etholiadau cyffredinol Senedd y DU neu etholiadau cyffredinol i Gynulliad Gogledd Iwerddon y mae'r ddarpariaeth yn gymwys.

Rwyf wedi gosod Memorandwm Atodol oherwydd bod gwelliannau wedi'u cyflwyno i'r darpariaethau ynghylch Argraffiadau Digidol sydd, yn fy marn i, yn sbarduno'r gofyniad am gydsyniad y Senedd. Fe'u crynhoir isod a manylir ymhellach arnynt yn y Memorandwm Atodol:

Argraffnodau Digidol

Fel y nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol, ein barn ni ar hyn yw, er nad oes anghytundeb â bwriad y polisi, bod hyn yn ymwneud â thryloywder etholiadol sydd, cyn belled ag y mae etholiadau datganoledig yn y cwestiwn, yn dod o fewn cymhwysedd datganoledig ac yn gofyn am gydsyniad y Senedd. Gwnaed nifer o welliannau gan Lywodraeth y DU i'r darpariaethau ynghylch argraffnodau digidol yn y Bil yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin. Cyflwynwyd gwelliannau ychwanegol ar 28 Chwefror cyn cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi. Mae'r gwelliannau'n cynnwys darpariaeth sy'n gymwys i etholiadau datganoledig, ac o'u hystyried yn eu cyfanrwydd gellir barnu eu bod yn ymwneud â mater nas cedwir yn ôl, sef bwriadu rheoleiddio tryloywder deunydd etholiadol a gyhoeddir ar-lein a sicrhau bod darllenwyr a derbynwyr y deunydd etholiadol hwnnw'n deall pwy sydd wedi cyhoeddi deunydd ar-lein.

Bygythiadau (Anghymhwysu)

Maes arall nad yw Llywodraeth y DU wedi ceisio ei eithrio yn achos Cymru yw mewn perthynas â Rhan 5 o'r Bil – Anghymhwysu Troseddwyr rhag Dal Swyddi Etholedig etc. Mae ein safbwynt o ran y darpariaethau hyn wedi'i nodi ym mharagraff 29 i 33 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol a pharagraffau 55 i 58 o'r Memorandwm Atodol. Mae Rhan 5 yn cyflwyno cosb etholiadol newydd ar ffurf gorchymyn anghymhwysu y bwriedir iddo ddarparu amddiffyniad ychwanegol i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn etholiadau a chyfrannu at y ddadl wleidyddol, ac atal unigolion rhag cyflawni gweithredoedd bygythiol yn eu herbyn.

Rydym wedi datgan nad ydym yn gwrthwynebu'r darpariaethau ar fygythiadau mewn egwyddor, gan ei bod yn bwysig amddiffyn cyfranogwyr yn y broses ddemocrataidd.

Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y gorchymyn anghymhwysu ar sail bygythiadau yn ymwneud â mater achosion troseddol a gedwir yn ôl (sy'n cynnwys deddfrydu) ac felly nad yw'r broses cydsyniad deddfwriaethol wedi'i sbarduno. Felly, mae Llywodraeth y DU wedi datgan na fyddai'n ystyried gwelliant i ddileu cymhwysiad y gorchymyn anghymhwysu i etholiadau datganoledig a swyddi etholedig yng Nghymru.

Rydym yn anghytuno â safbwynt Llywodraeth y DU nad oes angen cydsyniad deddfwriaethol. Mae'r cymalau perthnasol yn y Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig oherwydd yr effaith a gânt ar fod yn gymwys i fod yn aelod o'r Senedd ac yn aelodau o awdurdodau lleol yng Nghymru. Rydym yn dal i lynu'n gadarn wrth y safbwynt y dylai pob deddfwrfa gael y rhyddid i benderfynu ar ei threfn anghymhwysu ei hun ar gyfer yr etholiadau y mae'n gyfrifol amdanynt.

O ystyried bod ein hanghytundeb â Llywodraeth y DU yn y ddau faes hyn yn ymwneud â chymhwysedd, yn hytrach na'r bwriad polisi, rydym yn argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad yn y ddau faes hyn. Wrth wneud hynny, rydym o'r farn y bydd modd inni ystyried y materion hyn ymhellach gan ymgynghori â rhanddeiliaid yng Nghymru ac, os oes angen, ystyried yr opsiynau ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth yn y dyfodol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at holl Aelodau'r Senedd.

Yn gywir,



Mick Antoniw AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution



Ein cyf/Our ref: MA/CG/4516/21

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru
SeneddTai@senedd.cymru

16 Chwefror 2022

Annwyl Huw a John,

Nodaf fod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi cyhoeddi adroddiadau ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Etholiadau ar ddechrau mis Rhagfyr 2021. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgorau am roi eu barn ar y materion a godwyd yn y Memorandwm. Roedd adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn cynnwys argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru. Rwy'n ymateb i'r rhain isod.

Argymhelliad 1

Ar ôl i'r Bil orffen ei hynt trwy Senedd y DU, dylai'r Cwnsler Cyffredinol gyhoeddi datganiad ar oblygiadau'r deddfwriaeth ar gyfer etholiadau datganoledig yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cadarnhau gyda Llywodraeth Cymru pa bryd y bydd y Bil yn gorffen ei hynt drwy Senedd y DU, felly ni allaf roi unrhyw awgrym cadarn ynghylch amseru'r datganiad ar hyn o bryd.

Argymhelliad 2

Dylai'r Cwnsler Cyffredinol gadarnhau cyn gynted â phosibl ei fwriad i gyflwyno Bil i Gymru ar gyfraith etholiadol mewn pryd ar gyfer etholiad cyffredinol nesaf y Senedd yn 2026.

Ymateb: Derbyn. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gyda hyn hoffwn ystyried rhai o'r materion yn y Bil mewn deddfwriaeth Senedd ar wahân.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 72
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel y gwyddoch, mae ein cynlluniau deddfwriaethol wedi'u trefnu yn flynyddol drwy ein Rhaglen Ddeddfwriaethol. Fy mwriad yw cyflwyno Bil erbyn etholiadau nesaf y Senedd ond, wrth gwrs, bydd angen ystyried hyn ochr yn ochr â gofynion eraill yn y Rhaglen Ddeddfwriaethol.

Argymhelliad 3

Dylai'r Cwnsler Cyffredinol gymryd y camau canlynol ar y cyfle cyntaf:

- *cadarnhau canlyniad ei drafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch diwygio'r Bil gan gynnwys mewn perthynas â chymalau 12 a 13 sy'n ymwneud â'r Comisiwn Etholiadol;*
- *egluro natur y diwygiadau sy'n cael eu ceisio, gan gynnwys i ba raddau y maen nhw'n ymwneud â diben datganoledig;*
- *cynghori pa bryd, ac os yw'n briodol, ei fod yn bwriadu cyflwyno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol sy'n ymwneud â chyflwyno diwygiadau yn unol â Rheol Sefydlog 29.2*

Ymateb: Derbyn.

Mae trafodaethau ar y gweill gyda Llywodraeth y DU. Rydym yn ceisio gwelliannau i ddileu etholiadau datganoledig Cymru o gwmpas y Bil. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar ôl cwblhau'r trafodaethau hyn.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys sylwebaeth ar hyd a lled y cydweithredu ac ymgysylltu gyda Llywodraeth y DU ym mhob Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ofynnol yn rhinwedd Rheol Sefydlog 29.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor. Byddwn yn ystyried diwygio'r canllawiau ffurfiol ar gyfer cwblhau Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol fel rhan o'n hymwneud ag adolygiad y Pwyllgor Busnes o'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i wneud hyn yn ofyniad. Yn y cyfamser, wrth baratoi Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, byddwn yn sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i Aelodau am hyd a lled y cydweithrediad ac ymgysylltu â Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, byddwch yn gwerthfawrogi bod angen parchu cyfrinachedd, ac efallai na fyddwn bob amser mewn sefyllfa i rannu'r holl wybodaeth a gawn.

Gwelliannau wedi eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU

Hoffwn hefyd eich gwneud yn ymwwybodol fod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno nifer o welliannau i'r Bil yn ystod mis Ionawr, yn ymwneud â cheisiadau pleidlais absennol ar-lein, darpariaethau adnabod pleidleiswyr, ac argraffnodau digidol. Rwyf yn rhoi ystyriaeth bellach i'r gwelliannau hyn, ynghyd â'r Bil yn fwy eang, ac fe fyddaf yn eich diweddarau maes o law.

Gobeithiaf fod yr ymatebion uchod i'r argymhellion, ac y diweddariad ar welliannau o gymorth. Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r ddau Bwyllgor wrth i'r Bil symud yn ei flaen.

Yn gywir,



Mick Antoniw AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Counsel General and Minister for the Constitution

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon